6 Rhagfyr 2018

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Aeddfedrwydd llywodraeth leol o ran y defnydd o ddata

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Rheolwyd tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru gan Nick Selwyn, ac roedd yn cynnwys Matt Brushett, Philippa Dixon, Steve Frank, Martin Gibson, Gareth Jones, Euros Lake a Sara Leahy.

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys


Cyflwyniad 6

Adroddiad cryno 10

Crynodeb 10

Argymhellion 14

1 Mae gweledigaeth eglur ac arweinyddiaeth effeithiol yn helpu i greu'r diwylliant sy'n ofynnol i wneud y defnydd gorau o ddata, ond prin yw'r awdurdodau lleol sydd wedi canolbwyntio ar feithrin amgylchedd lle y gellir manteisio i'r eithaf ar y data sydd ganddynt 16

Mae angen i arweinwyr yr awdurdodau wneud mwy i greu diwylliant data cryf 18

Mae rheoli data fel ased corfforaethol yn helpu i gefnogi'r broses integreiddio, ond prin yw'r awdurdodau sydd wedi mabwysiadu safonau i helpu i ddatgloi'r potensial hwn 20

Gyda'r twf mewn 'data mawr', mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn sicrhau cywirdeb eu gwybodaeth, ond mae ansawdd y data yn parhau i fod yn her barhaus i rai 22

Gofynnir i ddinasyddion ddarparu'r un wybodaeth sawl tro wrth wneud ceisiadau am wasanaethau, ond nid yw awdurdodau yn integreiddio systemau rheoli i wella effeithlonrwydd data 23

2 Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol yn dda am gydymffurfio â rheoliadau diogelu data, ond nid ydynt bob amser yn rhannu'r data personol y maent yn eu casglu â phartneriaid 25

3 Nid yw awdurdodau lleol yn buddsoddi digon yn eu galluoedd rheoli data a'u sgiliau dadansoddi 31

4 Mae awdurdodau lleol yn defnyddio data i reoli perfformiad, ond mae bylchau a gwendidau yn golygu nad yw penderfyniadau bob amser yn seiliedig ar ystod lawn o dystiolaeth 35

Mae dadansoddi perfformiad yn aml yn gyfyngedig 37

Mae awdurdodau lleol yn cynyddu swm y data agored y maent yn ei gyhoeddi 38

Nid yw prosesau gwneud penderfyniadau bob amser yn cael eu llywio gan waith dadansoddi neu werthuso data effeithiol 40

Atodiadau

Atodiad 1 – Methodoleg yr astudiaeth 44

Atodiad 2 – Geirfa 45

Atodiad 3 – Arferion da wrth ddefnyddio data 46

# Cyflwyniad

## Mae awdurdodau lleol yn graddol ddatblygu diwylliant sy'n rhoi gwerth ar ddata ac yn eu defnyddio i'w llawn botensial er mwyn helpu i wella gwasanaethau a chanlyniadau


1 Mae twf strategaethau 'data mawr'[1] yn y sector preifat, ynghyd ag argaeledd 'data agored'[2], wedi bod yn ddigyffelyb yn ddiweddar, ac mae wedi chwyldroi'r ffordd y mae sefydliadau yn gwneud penderfyniadau. Gyda'r dechnoleg sydd ar gael heddiw, ynghyd â chyfradd y newid technolegol, mae prosesau gwneud penderfyniadau dan arweiniad data yn dod yn norm yn hytrach na'r eithriad. Fodd bynnag, a yw'r dull hwn yn ymestyn i awdurdodau lleol yng Nghymru?

2 Mae bod yn graff ac yn strategol wrth ddefnyddio data yn sicrhau llawer o fanteision i awdurdodau lleol, eu partneriaid, y cymunedau y maent yn gweithio ynddynt a'r dinasyddion y maent yn eu gwasanaethu. Mae gwneud gwell defnydd o ddata yn cefnogi awdurdodau i wneud penderfyniadau gwell a chyflymach. Mae hefyd yn galluogi awdurdodau i wneud y defnydd gorau o adnoddau trwy nodi gwastraff ac aneffeithlonrwydd, gan felly gynyddu cynhyrchedd. Yn bwysicaf oll, mae gwneud y defnydd gorau o ddata yn fuddiol i ddemocratiaeth gan ei fod yn cryfhau prosesau llywodraethu ac atebolrwydd.

1 Mae data mawr yn ymwneud â'r angen i wneud synnwyr o'r symiau helaeth o ddata y mae awdurdod lleol yn eu casglu – gan eu prosesu, eu dadansoddi, a manteisio arnynt er budd awdurdodau lleol, partneriaid a chymunedau. Mae data mawr yn cyfeirio at wybodaeth ddigidol sy'n enfawr ac yn amrywiol, ac mae hynny'n gofyn am dechnoleg ac arferion gorau i ddidoli, prosesu, storio a dadansoddi.

2 Data agored yw'r syniad y dylai rhywfaint o ddata fod ar gael i bawb eu defnyddio a'u hailgyhoeddi fel y dymunant, heb gyfyngiadau o ran hawlfraint, patentau na dulliau eraill o reoli. Un o'r mathau pwysicaf o ddata agored yw data llywodraeth agored oherwydd mae sicrhau bod gwybodaeth y llywodraeth ac awdurdodau lleol ar gael i'r cyhoedd yn gallu hwyluso tryloywder, atebolrwydd a chyfranogiad y cyhoedd.

Eitem 1 – Y rheswm pam y mae gwneud gwell defnydd o ddata yn bwysig ar gyfer awdurdodau lleol




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

3 Mae awdurdodau lleol yn eistedd ar 'wythïen gyfoethog' o ddata personol, ariannol a chymunedol a allai eu helpu i ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon ac effeithiol. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt y blociau adeiladu cywir ar waith i ryddhau'r potensial data hwn, a hynny'n benodol o ran: safonau rheoli cytunedig, codio cyffredin, a'r diwylliant, yr arweinyddiaeth a'r sgiliau cywir. Mae manteision cysylltu a defnyddio data, a hynny yn yr awdurdodau lleol a chyda phartneriaid, yn heriol, ac mae angen i awdurdodau oresgyn rhai rhwystrau arwyddocaol os ydynt am wneud y defnydd gorau o ddata – Eitem 2.

Eitem 2 – Y rhwystrau sy'n golygu nad yw awdurdodau lleol yn gwneud gwell defnydd o ddata

**Ni allwn wneud gwell defnydd o ddata oherwydd y canlynol…**

**Mae'n rhy beryglus rhannu data â chyrff cyhoeddus eraill**

Mae awdurdodau lleol yn aml yn amharod i rannu data personol, neu'n teimlo na allant wneud hynny. Nid yw staff bob amser yn eglur ynghylch yr hyn y gallant ei rannu, y sawl y gallant rannu'r data â nhw, ac o dan ba amgylchiadau. Mae amharodrwydd i rannu a defnyddio data yn llesteirio cyfleoedd i ysgogi effeithlonrwydd.

**Nid oes gennym systemau sy'n ailddefnyddio ac yn ychwanegu gwerth at ein data**

Mae systemau a phrosesau yn parhau i ganolbwyntio ar ddefnyddio data unwaith, ac nid yw buddion y data ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol eraill yn cael eu cydnabod. Gan nad yw llywodraethau lleol wedi pennu safonau data, mae data'n cael eu rheoli mewn seilos, ac nid yw'r gwaith o integreiddio yn hawdd nac yn cael ei gyflawni mewn modd gweithredol.

**Nid oes gennym y sgiliau i ddadansoddi a defnyddio data i'w llawn botensial**

Nid oes gwerth yn cael ei roi ar ddata fel adnodd allweddol, tebyg i staff ac arian, ac er bod llawer o wybodaeth yn cael ei chasglu, nid oes gan yr awdurdodau y sgiliau i ddadansoddi a datgloi potensial y data.

**Nid yw'r cyhoedd yn ymddiried ynom i reoli a gwneud y defnydd gorau o'r data yr ydym yn eu casglu ganddynt**

Gofynnir i aelodau'r cyhoedd ddarparu'r un wybodaeth dro ar ôl tro, ac nid oes ganddynt lawer o ffydd fod awdurdodau lleol yn cysylltu ac yn integreiddio'r wybodaeth y maent yn ei darparu i wella'r modd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u darparu.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

4 O wybod am yr heriau hyn, mae'r astudiaeth hon yn asesu a oes gan llywodraeth leol y blociau adeiladu a'r diwylliant cywir ar waith i fanteisio ar y data[3] sydd ganddo. Mae ein dulliau wedi cael eu pennu yn Atodiad 1.

3 Nid yw'r astudiaeth hon yn ymwneud â thechnoleg, meddalwedd na chaledwedd. Yn hytrach, mae'n astudiaeth o nodweddion allweddol sefydliad aeddfed sy'n defnyddio ac yn rhoi gwerth ar ddata er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

5 Yn Rhan 1 o'r adroddiad, rydym yn astudio'r dull strategol y mae awdurdodau lleol yn ei roi ar waith i wneud gwell defnydd o ddata. Roeddem wedi canfod nad yw awdurdodau lleol yn manteisio ar y symiau enfawr o ddata y maent yn eu casglu er mwyn gweithredu mewn modd mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Yn rhy aml, mae gwasanaethau a thimau yn cadw gwybodaeth mewn seilos ac yn ei defnyddio i un diben. Oherwydd nad oes gan awdurdodau safonau data corfforaethol, mae dyblygu gwybodaeth yn gyffredin a phrosesau integreiddio data yn aml yn wael. O ganlyniad, mae'n bosibl bod y potensial i ailddefnyddio data yn cael ei anwybyddu. Yn oes y data mawr, mae chwalu seilos sefydliadol er mwyn ysgogi newid mewn diwylliant yn flaenoriaeth. Yn gyffredinol, nid oes gan yr awdurdodau weledigaeth eglur ar gyfer defnyddio data, ac nid yw'r arweinyddiaeth sy'n ofynnol i helpu i greu'r amgylchedd strategol cywir i fanteisio i'r eithaf ar ddata yn gyson bresennol.

6 Yn Rhan 2, rydym yn crynhoi gwaith diogelu data yr awdurdodau lleol a'r modd y maent yn mynd ati i rannu data â chyrff cyhoeddus eraill. Gall awdurdodau lleol gasglu a chadw data personol a sensitif iawn i'w helpu i ddarparu eu gwasanaethau. Gall y data hyn gynorthwyo eu partneriaid, ond mae defnyddio a rhannu data yn weithgarwch cydbwyso anodd. Yn gyffredinol, canfuom fod gan awdurdodau drefniadau da ar waith i ddiogelu data, ond maent yn aml yn gochel rhag risgiau ac yn amharod i rannu gwybodaeth, er gwaethaf argaeledd dulliau cenedlaethol tebyg i Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Mae angen i bartneriaid sector cyhoeddus wneud mwy i ddatgloi potensial llawn y data sydd ganddynt.


7 Yn Rhan 3, rydym yn archwilio a oes gan awdurdodau lleol y sgiliau a'r gallu i gasglu, rhannu a dadansoddi data. Un o elfennau allweddol aeddfedrwydd o ran y defnydd o ddata yw sicrhau bod staff yn hyddysg mewn dadansoddeg data fel y gallant ddefnyddio'r data y maent hwy, a phartneriaid, yn eu cadw i ddeall digwyddiadau, rhagfynegi senarios yn y dyfodol, a modelu galw posibl. Canfuom fod awdurdodau lleol yn cydnabod nad oes ganddynt bob amser y sgiliau cywir na'r gallu i wneud y defnydd gorau o ddata.


8 Yn Rhan 4, rydym yn ystyried pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol o ran eu defnydd o’r data sydd ar gael i gytuno ar flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol a dyrannu adnoddau. Mae awdurdodau sydd â lefelau uchel o aeddfedrwydd data yn defnyddio data i dreialu dulliau fel y gallant ddysgu am yr hyn sy’n gweithio a sicrhau bod data agored ar gael mewn amser real i gefnogi ystod eang o sefydliadau i ddatblygu gwasanaethau a dulliau newydd. Canfuom fod awdurdodau lleol yn defnyddio data i adolygu perfformiad, ond bod bylchau a gwendidau yn y data a ddefnyddiant yn golygu nad yw penderfyniadau bob amser yn seiliedig ar yr ystod lawn o dystiolaeth. Yn gyffredinol, gall awdurdodau lleol ddeall perfformiad blaenorol, ond nid ydynt yr un mor ddeheuig o ran eu defnydd o ddata i helpu i rag-weld senarios posibl yn y dyfodol neu i fodelu’r senarios hynny.

9 Yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn, mae’r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i’r casgliad **fod awdurdodau lleol yn graddol ddatblygu diwylliant sy’n rhoi gwerth ar ddata ac yn eu defnyddio i’w llawn botensial er mwyn helpu i wella gwasanaethau a chanlyniadau**. Trwy ein gwaith, rydym wedi nodi’r hyn a ystyriwn yn agweddau allweddol ar aeddfedrwydd data mewn llywodraeth leol, a nodir y rhain yn Eitem 3.

## Eitem 3 – Aeddfedrwydd Data mewn llywodraeth leol

Mae’r Eitem yn nodi’r agweddau allweddol ar aeddfedrwydd data. Mae lefel 1 yn disgrifio sefydliad sydd â lefelau isel o aeddfedrwydd data, a lefel 3 sefydliad sydd â lefelau uchel o aeddfedrwydd data. **At ei gilydd, rydym wedi dod i’r casgliad fod y rhan fwyaf o awdurdodau yn cael eu nodweddu gan y disgrifyddion ar lefel 1 a lefel 2**.

| Nodwedd Allweddol | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 |
|---|---|---|---|
| Arweinyddiaeth  | Mae arweinyddiaeth ar ddata a diwylliant sefydliadol yn annog dull sy'n gochel rhag risgiau, nad yw'n rhoi gwerth ar ddata nac yn ceisio gwneud y defnydd gorau posibl ohonynt. | Mae arweinwyr yn cydnabod gwerth symleiddio a gwella'r defnydd o ddata, a hynny yn yr awdurdod lleol ei hun a chyda phartneriaid. Nid yw'r diwylliant yn y rhan fwyaf o'r awdurdod wedi gwneud cynnydd o 'nodi' cyfleoedd i integreiddio a rhannu data i 'weithredu' ar hynny. | Mae gan y sefydliad ddiwylliant cryf o ran arweinyddiaeth, sy'n seiliedig ar dryloywder, ac sy'n rhoi gwerth ar ddata ac yn eu defnyddio i ategu penderfyniadau. Mae'r awdurdod yn rhannu data a barn yn agored â dinasyddion, partneriaid a rhanddeiliaid, gan nodi'r rhesymeg dros ddewisiadau. Rhoddir gwerth ar ddata a chânt eu defnyddio ledled yr awdurdod. |

| Nodwedd Allweddol | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 |
|---|---|---|---|
| Safonau corfforaethol  | Mae gwasanaethau'n gweithredu'n annibynnol mewn seilos, ac yn diffinio eu gofynion data eu hunain. Nid oes gan yr awdurdod lleol safonau corfforaethol o ran y modd y dylai gwasanaethau gipio a defnyddio data, ac ychydig iawn o waith mewnol ac allanol a wneir mewn perthynas ag integreiddio neu rannu data. | Mae'r awdurdod lleol yn gwybod am y data penodol a gesglir gan wasanaethau, ac mae ganddo rai cronfeydd data cysylltiedig, ond mae'r broses rhwydweithio data wedi datblygu mewn modd sylfaenol. Nid oes gan yr awdurdod lleol safonau data, ac er bod prosesau rhannu ac integreiddio data ar waith, mae hyn yn digwydd mewn meysydd cul eu diffiniad. | Mae gan yr awdurdod lleol safonau data corfforaethol a strwythurau codio. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi ei ofynion data hirdymor, ac mae'n symleiddio systemau i leihau dyblygu a gwella hygyrchedd. Caiff data eu hintegreiddio a rhoddir sylw i'r bylchau o ran codio pan gânt eu nodi. |
| Data cwsmeriaid integredig  | Mae defnyddwyr gwasanaethau yn aml yn gwneud sawl cais am wasanaethau neu gymorth. Mae dyblygu data yn gyffredin, ac mae rhai gwasanaethau yn dibynnu ar systemau â llaw sy'n defnyddio papur. | Mae dyblygu yn hysbys, ond nid yw bob amser yn cael sylw. Mae rhywfaint o safoni yn digwydd, fel arfer mewn perthynas â pharamedrau sefydledig, er enghraifft rhestrau eiddo, ond mae'n gyfyngedig. Mae'r rhan fwyaf o ddata wedi'u digido ond heb eu cysylltu. | Mae dinasyddion yn gwneud cais unwaith, ac mae gwasanaethau'n cael eu ffurfweddu i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r data yn gwbl ddigidol ac yn cael eu glanhau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn gywir. Mae'r broses o rannu ac integreiddio data wedi datblygu'n dda. Mae'r achosion o ddyblygu yn cael eu lleihau cymaint ag a ellir. |
| Diogelu data  | Deellir a chydymffurfir â'r ddeddfwriaeth diogelu data, ond mae'n rhwystr i rannu data. | Deellir a chydymffurfir â'r ddeddfwriaeth diogelu data ac ni chaiff ei hystyried yn rhwystr i'r broses o wneud gwell defnydd o ddata. | Cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth diogelu data, ac mae ei rhoi ar waith yn cefnogi'r awdurdod lleol i fynd ati mewn modd priodol i rannu data yn fewnol ac â chyrff eraill. |

| Nodwedd Allweddol | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 |
|---|---|---|---|
| Dadansoddeg data  | Mae buddsoddi mewn dadansoddeg data – dadansoddi yn ôl segmentau, rhag-weld a dadansoddi rhagfynegol – yn gyfyngedig. Prin yw'r gallu a'r sgiliau ar gyfer gwella'r defnydd o ddata. Ni fuddsoddir o gwbl mewn uwchsgilio staff, neu mae'r buddsoddiad yn brin iawn. | Cydnabyddir yr angen i feithrin sgiliau a gallu, ac i fuddsoddi mewn gwell defnydd o ddata, ond nid yw hyn bob amser yn cael sylw. Mae gwella capasiti ac uwchsgilio staff yn risgiau hysbys, ond mae'r cynnydd i fynd i'r afael â hyn yn araf neu'n gyfyngedig. | Mae staff wedi cael eu hyfforddi ym maes dadansoddeg data, ac mae gwasanaethau'n gwneud defnydd rheolaidd o ddata o ystod o ffynonellau i ddeall digwyddiadau, rhag-weld senarios yn y dyfodol a modelu'r galw posibl. Cydnabyddir a rhoddir gwerth ar ddadansoddeg data fel swyddogaeth graidd, ac mae'r adnoddau ar ei chyfer yn ddigonol. |
| Penderfyniadau dan arweiniad data  | Adroddir ar ddata a dadansoddir perfformiad. Mae ffocws y broses o adrodd ar berfformiad yn gyfyngedig i wybodaeth gwasanaethau'r awdurdod lleol, yn hanesyddol yn bennaf ac yn edrych yn ôl, ac nid yw'r adrodd yn digwydd mewn amser real. Yn anaml y defnyddir dadansoddiadau data. | Adroddir ar ddata a dadansoddir perfformiad. Mae'r awdurdod lleol yn canolbwyntio ar fonitro a mesur effaith. Mae pwysigrwydd dadansoddeg data yn tyfu ond nid yw wedi'i sefydlu na'i ddatblygu'n ddigonol yn y rhan fwyaf o wasanaethau. | Adroddir ar ddata a, thrwy werthuso perfformiad, cymerir camau unioni pan fo data yn amlygu bod angen newid cyfeiriad. Mae gan yr awdurdod lleol gofnod o gyflawniad o ran y defnydd o ddadansoddeg data i reoli gwasanaethau, ac mae'n canolbwyntio ar ddeall y galw yn y dyfodol. |
| Data agored  | Nid yw'r awdurdod lleol yn defnyddio data i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau mewn modd effeithiol. Mae data agored ac adroddiadau cyhoeddus yn gyfyngedig iawn. | Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio data i ategu penderfyniadau, ond mae cyfyngiadau o ran ei gwmpas a'i ddadansoddiad yn gwanhau dewisiadau 'amser real'. Cynhyrchir data agored ond mae'r cwmpas yn gyfyngedig. | Mae prosesau gwneud penderfyniadau a ysgogir gan ddata wedi hen sefydlu ac yn cael eu derbyn fel y 'ffordd i wneud pethau '. Mae data agored ar gael mewn amser real ac mae amrywiaeth eang o sefydliadau yn defnyddio'r wybodaeth i ddatblygu cyfleoedd gwasanaeth a busnes newydd. |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

# Argymhellion


10 Trwy ein hastudiaeth, rydym wedi gwneud yr argymhellion canlynol i gefnogi gwelliant.

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | **Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn amlygu pwysigrwydd creu diwylliant data cryf ac arweinyddiaeth eglur i wneud gwell defnydd o ddata.** Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:<br>• sicrhau bod ganddynt weledigaeth eglur sy'n trin data fel adnodd allweddol;<br>• sefydlu safonau a chodau data corfforaethol y mae pob gwasanaeth yn eu defnyddio ar gyfer eu data craidd;<br>• ymgymryd ag archwiliad i bennu'r data sy'n cael eu cadw gan wasanaethau ac i nodi unrhyw gofnodion a cheisiadau am wybodaeth dyblyg; a<br>• chreu cyfrif cwsmer integredig canolog fel porth i wasanaethau. |
| A2 | **Er ei bod yn bwysig bod awdurdodau'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol, mae Rhan 2 o'r adroddiad yn nodi'r angen iddynt hefyd rannu data â phartneriaid er mwyn sicrhau bod dinasyddion yn cael gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Er nad yw hyn yn golygu bod y ddeupeth hyn yn annibynnol ar ei gilydd, mae ansicrwydd ynghylch cyfrifoldebau diogelu data yn golygu nad yw rhai swyddogion yn rhannu data, hyd yn oed lle bo cytundeb mewn bodolaeth i roi gwybodaeth i bartneriaid.** Rydym yn argymell bod awdurdodau yn gwneud y canlynol:<br>• darparu hyfforddiant diweddaru i reolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallant rannu data ai peidio, a'r math o ddata y gallant eu rhannu; ac<br>• adolygu a diweddaru protocolau rhannu data er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data. |

| Argymhellion | |
|---|---|
| A3 | **Yn Rhan 3 o'n hadroddiad, rydym yn dod i gasgliad bod adnoddau digonol a gallu digonol yn heriau parhaus. Fodd bynnag, heb uwchsgilio staff i wneud gwell defnydd o ddata, mae awdurdodau yn colli cyfleoedd i wella eu heffeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd.** Rydym yn argymell bod awdurdodau yn gwneud y canlynol:<br>• dynodi staff sydd â rôl yn y broses o ddadansoddi a rheoli data i gael gwared ar ddyblygu, ac i ryddhau adnoddau i feithrin a datblygu'r gallu i ddefnyddio data; a<br>• buddsoddi yn sgiliau dadansoddi, cloddio a segmentu data y staff, a chefnogi eu datblygiad. |
| A4 | **Mae Rhan 4 o'n hadroddiad yn amlygu bod gan awdurdodau ragor i'w wneud mewn perthynas â chreu diwylliant gwneud penderfyniadau dan arweiniad data, ac o ran datgloi potensial y data y maent yn eu cadw.** Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:<br>• gosod safonau adrodd ar ddata i sicrhau bod y safonau data gofynnol yn ategu'r broses o wneud penderfyniadau; a<br>• sicrhau bod mwy o ddata agored ar gael. |


## Rhan 1

Mae gweledigaeth eglur ac arweinyddiaeth effeithiol yn helpu i greu'r diwylliant sy'n ofynnol i wneud y defnydd gorau o ddata, ond prin yw'r awdurdodau lleol sydd wedi canolbwyntio ar feithrin amgylchedd lle y gellir manteisio i'r eithaf ar y data sydd ganddynt



1.1 Mae diwylliant data cryf a gwneud defnydd da o ddata wedi'u plethu â'i gilydd, ac ni all awdurdodau gael y naill heb y llall. Creu diwylliant lle mae Aelodau Etholedig, uwch-swyddogion a staff rheng flaen yn ystyried ac yn defnyddio data mewn modd gwahanol yw'r her allweddol sy'n wynebu awdurdodau o ran gwneud gwell defnydd o ddata. Wedi'u crynhoi yn Eitem 4 y mae rhai o'r camau allweddol a nodwyd gennym o'n hastudiaeth sy'n helpu awdurdodau lleol i greu amgylchedd dan arweiniad data.

Eitem 4 – Creu amgylchedd dan arweiniad data




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

## Mae angen i arweinwyr yr awdurdodau wneud mwy i greu diwylliant data cryf

1.2 Mae awdurdodau lleol yn casglu llawer o ddata sy’n eu cefnogi i gynllunio a darparu ystod eang o wasanaethau. Fodd bynnag, ni ellir rhannu neu ailddefnyddio llawer o’r data a gesglir oherwydd eu bod yn cael eu cynnal mewn seilos. Mae ymchwil yn awgrymu na chaiff 90% o ddata anstrwythuredig fyth eu dadansoddi, gan olygu eu bod yn parhau mewn cyflwr ‘tywyll’, heb eu harchwilio; ac mae hyn yn wir er gwaethaf y ffaith bod sefydliadau yn buddsoddi adnoddau sylweddol i gasglu’r data hyn[4]. Mae uno a chyfuno data wedi bod yn broblem erioed ers bodolaeth cronfeydd data, ond mae swm y data a allai fod yn berthnasol ac sydd bellach ar gael yn filoedd o weithiau’n fwy. Bydd awdurdod lleol aeddfed yn symud o nodi manteision posibl y data, i ddefnyddio’r holl ddata wrth wneud dewisiadau, penderfyniadau a phennu newidiadau i’r gwasanaethau a ddarperir.

1.3 Gall fod yn anodd cysylltu data unrhyw awdurdod gan ei bod yn ofynnol i adrannau, gwasanaethau a thimau gyflwyno ffyrdd newydd o weithio yn lle prosesau hirsefydlog. Mae hefyd yn ofynnol i staff beidio â gochel cymaint rhag risgiau, a bod yn fwy parod i dderbyn y manteision y gall data eu cynnig ar gyfer cyd-weithwyr, partneriaid a dinasyddion. Mae diwylliant sefydliad yn cael effaith fawr ar y broses o wneud y gorau o botensial data, a gall fod yn rhwystr mawr i’r awdurdod lleol wneud defnydd llawn o’r data. Mae’r modd y caiff awdurdod ei sefydlu, y ffordd y mae gwasanaethau a staff yn gweithio, a dull uwch-arweinwyr o gydnabod a rhoi gwerth ar ddata, yn dylanwadu ar ddiwylliant. Er bod yna arweinwyr brwdfrydig yn yr awdurdod, sy’n gweld manteision posibl datgloi data, mae angen gwneud mwy.

1.4 Amlygodd y bobl a gyfwelwyd gennym fod chwalu rhwystrau a seilos yn niwylliant sefydledig awdurdod, sy’n aml yn gochel rhag risgiau, yn fater heriol, a bod cymorth gan benderfynwyr allweddol yn ofynnol ar ei gyfer. Yn benodol, nododd y cyfweleion fod staff rheng flaen yn hanfodol i’r llwyddiant, a bod angen iddynt ddeall pwysigrwydd eu rôl wrth gasglu data cwsmeriaid. Os na fydd yna ewyllys neu arweinyddiaeth yn pennu’r ‘cywair’ iawn ‘ar y brig’, yna bydd yn anodd i awdurdodau wneud y defnydd gorau o ddata.

**Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw’r canlynol…**

“Diwylliant o reoli seilos, amharodrwydd i arloesi, a diffyg ymwybyddiaeth o’r modd y gellir defnyddio data”

**Rheolwr Gweithredol**

“Arweinyddiaeth a diwylliant a chydnabyddiaeth ffurfiol o rôl y data yn y sefydliad a ledled y sefydliad i gefnogi pob agwedd ar brosesau gwneud penderfyniadau gweithredol, tactegol a strategol”

**Swyddog Cydymffurfiaeth Gwybodaeth**

1.5 Canfuom nad oes gan unrhyw awdurdod lleol uwch-swyddog dynodedig sy'n arwain ar ddata yn unig, heb orfod ysgwyddo cyfrifoldebau eraill. Trwy ein gwaith maes, canfuom fod rhai awdurdodau yn ystyried bod arweinyddiaeth ar ddata yn dechnegol ei natur, gan roi'r cyfrifoldebau i'r Pennaeth TGCh, neu ei bod yn cael ei llunio gan gydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth diogelu data, gyda'r Uwch-swyddog Risg Gwybodaeth yn arwain. Mae'r swyddogion hyn yn darparu safbwyntiau technegol ac arbenigol pwysig, ond nid ydynt yn aml yn 'eiriolwyr' a all gael dylanwad a chreu newid ar lefelau gwahanol ac mewn meysydd gweithgarwch gwahanol, yn enwedig o ran chwalu seilos ar ailddefnyddio data mewn gwasanaethau sy'n delio'n uniongyrchol â chwsmeriaid.

1.6 Mae arweinyddiaeth effeithiol hefyd yn ymwneud ag uchelgais a meddu ar weledigaeth eglur ar gyfer data, a honno'n seiliedig ar ganlyniadau penodol sy'n cydnabod data fel adnodd allweddol, tebyg i gyllid a staff. Er gwaethaf pwysleisio bod gwneud gwell defnydd o ddata yn flaenoriaeth, mae yna ddiffyg gweledigaeth, strategaeth neu gynllun ym mwyafrif yr awdurdodau ar gyfer gwella data, ac nid ydynt yn mynegi'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella mewn modd eglur. Roedd nifer o gyfweleion yn teimlo bod hwn yn her arbennig o ddybryd oherwydd, heb weledigaeth a chynllun, roedd yn annhebygol y gellid datblygu a rhoi unrhyw gamau gweithredu pendant ar waith, a hyd yn oed yn llai tebygol y byddai yna welliannau.

1.7 Yn absenoldeb ffocws corfforaethol clir a chyson ar ddata, nododd swyddogion yr awdurdodau lleol fod camau gweithredu i wella, yn gyffredinol, yn cael eu rhoi yn nwylo gwasanaethau unigol i'w hyrwyddo, gan ei gwneud yn anodd pennu pwy sydd (neu a ddylai fod) yn arwain, ac sy'n atebol am gydlynu ymdrechion i wella'r defnydd o ddata. Yn ogystal, mae diffyg targedau a nodau ar gyfer gwella'r defnydd o ddata, sy'n hanfodol er mwyn dynodi'r hyn y mae awdurdod yn gobeithio ei gyflawni gyda gwell data, yn ei gwneud yn anodd mesur cynnydd a gwelliant. Mae hyn yn creu risg y bydd gwasanaethau'n ystyried materion sy'n ymwneud â data mewn modd gwahanol, a all arwain at ddyblygu camau gweithredu, neu ddim gweithredu o gwbl, a/neu atgyfnerthu anghysonderau a gwendidau wrth gasglu, rheoli a defnyddio data.

**Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol …**

"Newid mewn diwylliant a'r amharodrwydd i rannu gwybodaeth ledled gwasanaethau"

**Pennaeth TGCh**

"Diwylliant, gan symud i ddefnyddio dirnadaeth o safbwynt a arweinir gan ddata yn hytrach na phrofiad"

**Pennaeth Polisi**

"Materion diwylliannol sy'n ymwneud â defnyddio data"

**Aelod o Dîm Rheoli Corfforaethol**

## Mae rheoli data fel ased corfforaethol yn helpu i gefnogi'r broses integreiddio, ond prin yw'r awdurdodau sydd wedi mabwysiadu safonau i helpu i ddatgloi'r potensial hwn

1.8 Er bod awdurdodau, ar y cyfan, yn eglur o ran y data y mae arnynt eu hangen i ddarparu gwasanaethau, nid yw llawer o awdurdodau wedi cynnal archwiliad data i bennu'r gofynion o ran data yn y dyfodol. Yn benodol, amlygodd Rheolwyr TGCh a Swyddogion Cydymffurfio faterion sy'n achos pryder, sef nad yw rheolwyr gweithredol yn ystyried eu hanghenion data ar gyfer y dyfodol, na chwaith yn nodi'r wybodaeth y maent yn ei chasglu sy'n gyffredin ledled gwasanaethau. Nododd llawer o ymatebwyr i'n hofferyn data nad yw integreiddio data ledled gwasanaethau yn gyffredin yn eu hawdurdodau, a hynny er bod gan yr awdurdodau y gallu i gydgysylltu data i gynnig gwell dirnadaeth, sy'n eu helpu i gyflwyno ymyraethau cynharach, llai costus.

1.9 Amlygodd Penaethiaid TGCh yn yr awdurdodau lleol, yn arbennig, risg barhaus fod awdurdodau lleol yn gwneud rhy ychydig i safoni eu data, ac nad ydynt eto yn defnyddio proses codio data gyffredin ledled gwasanaethau i wneud y gwaith integreiddio yn haws. Yn rhy aml, mae'r data a gesglir gan wasanaeth yn cael ei bennu gan weithwyr proffesiynol sy'n eglur eu meddwl o ran yr hyn y mae arnynt ei angen er mwyn cyflawni eu swyddogaethau, ond yn llai ymwybodol o (neu heb roi ystyriaeth i) fanteision corfforaethol/cymunedol ehangach y data y maent yn eu casglu, a'r potensial i'w hailddefnyddio. Felly, mae'r ffordd y caiff systemau data eu datblygu, y modd y mae gwybodaeth yn cael ei chodio, a'r diffyg safoni mewn meysydd data a ddefnyddir yn gyffredin (e.e. enwau personol, cyfeiriadau, ethnigrwydd, ac ati), yn gallu gwneud y broses o gysylltu a chydgysylltu data yn llawer anos nag y mae angen iddi fod.

**Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol…**

"Systemau casglu data gwahanol nad ydynt yn siarad â'i gilydd, a diffyg dealltwriaeth o'r modd y gall y data a gesglir ar gyfer un maes gwasanaeth effeithio ar y broses o ddarparu gwasanaethau mewn mannau eraill"

**Rheolwr Gweithredol**

"Mae meysydd gwasanaeth gwahanol yn y Cyngor yn defnyddio systemau gwahanol, ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd sicrhau darpariaeth gydlynol ar gyfer y cyhoedd"

**Rheolwr Gweithredol**

"Mae yna gymaint o systemau pwrpasol ac ar wahân ar gael fel ei bod yn anodd gwybod pa ddata a gedwir ym mhle, a phwy sy'n eu cadw"

**Rheolwr Gweithredol**

1.10 Er enghraifft, rhoddir cyfeirnodau gwahanol yn aml ar ddata eiddo a gesglir gan adrannau'r awdurdod. Mae rhai gwasanaethau yn defnyddio cyfeirnodau pwrpasol a grëwyd yn rhan o'r broses o roi'r system ar waith, mae rhai yn defnyddio cyfeiriadau mewn rhestrau strydoedd (a all fod yn anghyflawn neu'n rhannol yn aml), ac mae eraill yn defnyddio gogleddiadau/dwyreiniaid[5]. Yn achos pob un o'r rhain, gall y modd y cofnodir gwybodaeth amrywio. Felly, gall y broses o ddod â gwybodaeth a gedwir mewn systemau gwahanol at ei gilydd fod yn ddrud, ac yn un sy'n llyncu llawer o amser. Bydd yr awdurdodau lleol hynny nad ydynt yn gallu cydgysylltu a chydweddu cofnodion a gedwir yn y systemau TGCh gwahanol yn eu sefydliad eu hunain, hefyd yn ei chael hi'n anodd cydweithio â phartneriaid i integreiddio data.

**Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol…**

"Er bod y Cyngor yn dda o ran cadw llawer iawn o ddata ... mae'r data'n aml yn cael eu cadw mewn systemau anodd eu cwestiynu ac, felly, ni ddefnyddir llawer o'r data a gedwir mewn modd effeithiol"

**Rheolwr Gweithredol**

"Safonau cyson wrth gasglu a defnyddio data"

**Aelod o Dîm Rheoli Corfforaethol**

1.11 Serch hynny, canfuom rai enghreifftiau cadarnhaol lle mae awdurdodau lleol yn ceisio safoni data i wella integreiddiad a dirnadaeth. Mae cod adnabod eiddo canolog Cyngor Dinas Casnewydd wedi galluogi'r awdurdod i gysylltu data'r gwasanaethau. Er nad yw hyn yn cwmpasu pob adran a phob maes gwaith, y mae, serch hynny, yn helpu'r awdurdod i ddwyn ynghyd wybodaeth o amrywiaeth o gronfeydd data gwahanol er mwyn cefnogi swyddogion sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen. Yn yr un modd, mae Cyngor Sir Ddinbych yn defnyddio'i Restrau Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) ar gyfer cyfeiriadau, sy'n helpu'r awdurdod i fapio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau, ynghyd â'u cwmpas. Yn gyffelyb, mae Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn integreiddio peth data gwasanaethau er mwyn helpu i adnabod yr aelwydydd hynny sy'n agored i niwed ac y mae arnynt angen cymorth, ond hefyd er mwyn targedu camau gweithredu lle bo yna ymddygiad gwrthgymdeithasol.

1.12 Ar y cyfan, fodd bynnag, canfuom mai cyfyngedig oedd y dystiolaeth fod awdurdodau yn defnyddio safonau data corfforaethol, a bod y dulliau cyfredol o integreiddio data, gan fwyaf, yn fentrau untro a chynlluniau peilot a ddatblygwyd yn y gwasanaethau. Mae safonau data corfforaethol yn disgrifio a phennu'r modd i 'gofnodi data', a gallant helpu i chwalu seilos adrannol, gan wneud y broses integreiddio a dadansoddi yn haws. Daethom i'r casgliad bod peidio â datblygu a defnyddio system godio gyffredin yn gyfle a gollwyd, gan wneud integreiddio yn anos ac yn fwy costus.

5 Mae'r termau 'dwyreiniad' a 'gogleddiad' yn gyfesurynnau Cartesaidd daearyddol ar gyfer pwynt penodol. Mae dwyreiniad yn cyfeirio at y pellter a fesurir i'r dwyrain (neu'r cyfesuryn x), tra bo gogleddiad yn cyfeirio at y pellter a fesurir i'r gogledd (neu'r cyfesuryn y).

## Gyda'r twf mewn 'data mawr', mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn sicrhau cywirdeb eu gwybodaeth, ond mae ansawdd y data yn parhau i fod yn her barhaus i rai

1.13 Nid yw'r cysyniad o ansawdd data, ynghyd â meddu ar brosesau rheoli cadarn i gofnodi data dibynadwy a chywir (gwasanaeth-benodol, ariannol a pherfformiad), yn newydd. Mae meddu ar ddata o ansawdd yn rhoi gwell dirnadaeth, ac mae'n rhan bwysig o ddull aeddfed o lywodraethu a gwneud penderfyniadau. Ar y llaw arall, gall data gwael eu hansawdd arwain at wneud penderfyniadau diffygiol a gwastraffu adnoddau, a gallant olygu bod pobl agored i niwed mewn perygl.

1.14 Mae rheoli ansawdd a chywirdeb data yn rhan annatod o reoli data, a dylai hyn gael ei roi ar waith ar wahanol gamau: yn ystod prosesau casglu data, cofnodi data, gwirio data a defnyddio data. Mae gwirio data i sicrhau cywirdeb fel arfer yn cynnwys gweithdrefnau awtomatig a llaw, ac mae'r rhain yn cwmpasu gwirio cyflawnrwydd cofnodion, cadarnhau cywirdeb hapsampl o wybodaeth, a chwilio am gofnodion dwbl. Gall dogfennu'r rheolaethau data yn fanwl ym mhob un o'r camau hyn helpu i gynnal yr ansawdd.

1.15 Er gwaethaf y gydnabyddiaeth fod ansawdd data yn bwysig, gall sicrhau bod popeth yn gywir fod yn heriol. Er bod awdurdodau lleol yn ystyried bod ansawdd data yn gwella, mae cywirdeb data[6] yn parhau i fod yn her i rai sefydliadau. Cafodd problemau yn ymwneud â systemau nad ydynt yn effeithlon nac yn effeithiol i gadw a defnyddio data, cyfrif ddwywaith, cofnodion dyblygedig, a gwybodaeth anghyflawn a rhannol, eu hamlygu fel anawsterau parhaus o ran codi safonau data a'u cynnal. Mae yna hefyd ormod o anghysonderau rhwng systemau o hyd, sy'n cael effaith enfawr ar ansawdd ac adrodd, a all arwain at wneud penderfyniadau yn seiliedig ar ddata anghyflawn neu anghywir. Mynegodd nifer o sefydliadau trydydd sector a chenedlaethol a gyfwelwyd gennym bryderon fod ansawdd data'r awdurdod lleol, yn ôl eu profiad, yn amrywio'n eang.

**Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol…**

"Mae angen sicrhau gallu digonol i ymgymryd â digon o brosesau sicrhau a rheoli ansawdd setiau data"

**Rheolwr Gweithredol**

"Sicrhau ansawdd, a pheidio â chadw data er mwyn cadw data. Dim ond yr hyn y mae arnom ei angen a ddylai fod gennym, ac ni ddylem wastraffu unrhyw adnoddau gwerthfawr yn cipio'r hyn sy'n ddiangen"

**Rheolwr Gweithredol**

6 Cywirdeb – dylai data fod yn ddigon cywir i'w diben bwriadedig. Y ffordd orau o sicrhau cywirdeb yw trwy gipio'r data mor agos at y gweithgarwch â phosibl. Dylai data gael eu cipio unwaith yn unig, er y gallai fod sawl defnydd iddynt.

## Gofynnir i ddinasyddion ddarparu'r un wybodaeth sawl tro wrth wneud ceisiadau am wasanaethau, ond nid yw awdurdodau yn integreiddio systemau rheoli i wella effeithlonrwydd data

1.16 Gall lleihau dyblygu a chysylltu data helpu i sicrhau arbedion o ran systemau rheoli cynnwys[7] a chostau cynnal[8]. Mae hefyd yn cynhyrchu gwybodaeth well ei hansawdd, ac yn cefnogi prosesau darparu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau integredig. Mae 'Un casgliad, sawl defnydd' yn egwyddor werthfawr. Er bod awdurdodau lleol yn cydnabod bod yna achosion o ddyblygu yn bresennol, canfuom nad yw hyd a lled y dyblygu yn aml yn hysbys.

1.17 Nododd pob grŵp o swyddogion a ymatebodd i'n hofferyn data nad oedd eu hawdurdod lleol wedi dileu prosesau casglu data dyblyg, a bod y gwaith i symleiddio'r galw am wybodaeth yn gwneud cynnydd araf, ar ei orau. Nododd nifer nad yw cysylltu data a gedwir ar hen dechnoleg TGCh, a'r ddibyniaeth barhaus ar gronfeydd data papur i gasglu a rheoli data, yn helpu i nodi na lleihau achosion o ddyblygu.

1.18 Teimlai'r grwpiau eiriolaeth y buom yn siarad â nhw fod gwasanaethau cyhoeddus yn gofyn am ddata personol dro ar ôl tro, a hynny'n ddiangen, gan wneud cais am yr un wybodaeth sawl gwaith, er enghraifft: cyfeiriad, oedran ac aelodau'r teulu – gan greu 'blinder data' a pheri i bobl beidio â gwneud cais am wasanaethau, yn enwedig gan nad yw rhesymau'r awdurdodau lleol dros gasglu data bob amser yn eglur i ddinasyddion. Er enghraifft, canfu ein harolwg o ddinasyddion nad oedd 82% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o reswm eu hawdurdod lleol dros gasglu cymaint o wybodaeth amdanynt, na'r hyn y mae'r awdurdod yn ei wneud gyda'r data y maent yn eu cadw amdanynt.

**Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol…**

"Dileu data dyblyg a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rheoli'n effeithiol yn y dyfodol"

**Rheolwr Gweithredol**

"Bydd gwneud defnydd effeithlon o ddata yn sicrhau ein bod yn casglu'r hyn sy'n ofynnol unwaith yn unig ac yn ei ddefnyddio mewn modd effeithiol ledled yr Awdurdod. Yn draddodiadol, mae gan bob maes gwasanaeth ei systemau data ei hun, ac mae'n anodd eu rhannu rhwng y naill â'r llall"

**Pennaeth TGCh**

"Datblygu systemau deallus sy'n integreiddio'r broses o gadw data rhwng adrannau, yn lleihau dyblygu, ac yn galluogi i ddata gael eu dadansoddi mewn modd effeithiol"

**Rheolwr Gweithredol**


7 Mae system rheoli cynnwys yn rheoli'r broses o greu ac addasu cynnwys digidol ac, yn nodweddiadol, yn cefnogi nifer o ddefnyddwyr mewn amgylchedd cydweithredol.

8 Mae gwasanaeth lletya yn lletya gwasanaeth neu wasanaethau penodedig i gwsmeriaid, sy'n cynnwys, gan amlaf, wefannau, ffeiliau data, delweddau a chynnwys tebyg. Mae gwasanaethau lletya yn aml yn cael eu contractio allan er mwyn lleihau costau a sicrhau bod yna weithdrefn adfer wedi trychineb ar waith yn achos methiant yn y system graidd.

1.19 Ar y cyfan, anghenion gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau, nid dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau, sy'n pennu'r modd y mae data'n cael eu casglu. Canfuom nad oes yr un awdurdod lleol yng Nghymru yn gweithredu cyfrif cwsmer sengl canolog, sy'n cysylltu pob gwasanaeth ag unigolyn. Mae gan rai awdurdodau byrth ar-lein ar gyfer gwasanaethau – er enghraifft Cyngor Gwynedd – ond nid oes unrhyw awdurdod wedi creu un cyfrif cynhwysfawr sy'n gosod y defnyddiwr yng nghanol y gwasanaethau y mae'n eu cael. Er enghraifft, mae Bwrdeistref Camden yn Llundain, trwy ei fynegai Preswylwyr Camden (CRI), yn integreiddio data ac yn cyfateb gwybodaeth o sawl ffynhonnell i ddarparu trosolwg cynhwysfawr a chysylltiedig o drigolion, eiddo a busnesau – gweler Atodiad 3.

# Rhan 2

## Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol yn dda am gydymffurfio â rheoliadau diogelu data, ond nid ydynt bob amser yn rhannu'r data personol y maent yn eu casglu â phartneriaid



2.1 Yn aml, mae awdurdodau lleol yn geidwaid gwybodaeth sy'n bersonol a sensitif iawn. Maent yn trin pob math o ddata yn ddyddiol, sy'n cynnwys popeth o incwm i gofnodion iechyd a gofal manwl. Mae datblygiadau technolegol yn rhoi cyfleoedd i awdurdodau fanteisio ar y cyfoeth o wybodaeth sydd ganddynt, a hynny trwy gloddio, rhannu ac integreiddio data gyda phartneriaid. Fodd bynnag, mae defnyddio data yn y sector cyhoeddus yn weithgarwch cydbwyso anodd. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddiogelu gwybodaeth bersonol rhag cael ei chamddefnyddio, ond dylai hynny gael ei wneud mewn modd nad yw'n mygu arloesedd. O ganlyniad, mae llawer o sefydliadau'r sector cyhoeddus yn ymaflyd â manteision a risgiau rhannu gwybodaeth â sefydliadau eraill – Eitem 5.

Eitem 5 – Manteision a risgiau rhannu data â chyrff cyhoeddus eraill

**Mae rhannu data yn beth da...**

- Mae'n helpu i lywio gwaith llunio polisi a gwella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus
- Gall helpu cyrff cyhoeddus i fod yn fwy effeithiol a chosteffeithiol
- Mae'n cefnogi data agored, ymchwil a'r economi sy'n seiliedig ar wybodaeth
- Mae'n creu amgylchedd tryloyw ac agored
- Gall arbed bywydau

**Mae rhannu data yn beth gwael ...**

- Mae rhannu'r data yn cynyddu'r risg y bydd gwybodaeth yn cael ei cholli neu ei chamddefnyddio
- Nid yw'r rheswm dros ddefnyddio'r data yn eglur
- Mae'n golygu bod unigolion yn colli rheolaeth, ac efallai na fyddant wedi cytuno i'w data gael eu rhannu
- Nid yw'r diben dros ddefnyddio'r data, na'r modd y caiff hynny ei wneud, bob amser yn eglur

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

2.2 Mae awdurdodau yn gwneud rhywfaint o gynnydd o ran trafod yr angen i rannu data ond, yn rhy aml, nid yw partneriaid posibl yn barod i gymryd rhan oherwydd pryderon ynghylch diogelu data. O ganlyniad i gyflwyno'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) ym mis Mai 2018, mae mwy o ffocws fyth wedi bod ar y tensiynau hyn.

2.3 Mae'r GDPR yn ei gwneud yn ofynnol i holl sefydliadau'r sector cyhoeddus ddeall y modd y maent yn rheoli preifatrwydd data am unrhyw un a ddosberthir yn ddinesydd yr Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn cynnwys dinasyddion, cwsmeriaid, contractwyr, staff asiantaethau, gwirfoddolwyr a gweithwyr – unrhyw un sy'n ddinesydd yr Undeb Ewropeaidd ac y mae awdurdod lleol yn cadw data sy'n ymwneud â phreifatrwydd amdano. Mae'r rheoliad newydd yn golygu bod gan ddinasyddion lawer iawn mwy o hawliau a phwerau mewn perthynas â'r modd y mae eu data'n cael eu defnyddio, gyda dirwyon mawr yn cael eu rhoi am dorri'r rheoliad. Mae gan ddinasyddion hefyd y gallu i ofyn i awdurdod lleol ddarparu manylion am yr holl wybodaeth a gedwir amdanynt (sef yr hyn a elwir yn 'Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun' neu SAR).

2.4 Mae llawer o'r newidiadau a gyflwynir gan y GDPR yn welliannau ar y rheoliadau preifatrwydd data cyfredol[9], ond maent yn dal i fod yn heriau sylweddol. Mae'n ofynnol i awdurdodau ddod o hyd i'r holl ddata am 'bersonau', nid dim ond y mwyafswm ohonynt. Fel y nodwyd uchod, mae hyn yn heriol o wybod bod data yn cael eu cadw mewn seilos, mewn systemau gwahanol ac mewn fformatau gwahanol, gan gynnwys data a adawyd gan ddinasyddion sy'n defnyddio sianeli electronig a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae angen i awdurdodau hefyd 'ddeddfu caniatâd', gan ddiffinio'r hyn y byddant yn ei wneud gyda'r data, y sawl a fydd yn ymdrin â'r data, a pha elfennau ar y data y gellir eu defnyddio ai peidio. Bydd angen iddynt hefyd sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth eglur o ofynion a chyfyngiadau'r 'hawl i gael eu hanghofio'[10].

**Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol…**

"Mae angen i'r GDPR, Bil Diogelu Data y Deyrnas Unedig a Deddf yr Economi Ddigidol gael eu cysoni a'u defnyddio fel cyfleoedd yn hytrach na rhwystrau"

**Swyddog Cydymffurfiaeth Gwybodaeth**

"Gofynion y GDPR newydd a pharodrwydd y cyhoedd i ganiatáu i ddata gael eu rhannu"

**Corporate Management Team member**

"New regulations (GDPR) coming into force... will be a challenge and current arrangements will require complete review"

**Operational Manager**

"Y GDPR ... ar yr union adeg yr ydym yn ceisio cyfuno data i'n helpu i ragfynegi galw ac ymyrryd yn gynnar, mae gan breswylwyr yr hawl i ddweud wrthym am anghofio'r hyn yr ydym yn ei wybod amdanynt!"

**Aelod o Dîm Rheoli Corfforaethol**

9 Mae data personol hefyd yn cael eu llywodraethu gan ofynion Deddf Diogelu Data 2018, ac fe'u diffinnir yn y Ddeddf fel gwybodaeth sy'n ymwneud â tharddiad hiliol neu ethnig; barn wleidyddol, credoau crefyddol neu gredoau eraill; aelodaeth neu fel arall o undeb llafur; cyflwr corfforol neu feddyliol; bywyd rhywiol unigolyn, ac unrhyw drosedd a gyflawnwyd neu yr honwyd iddi gael ei chyflawni, neu'r penderfyniad neu'r ddedfryd gan lys mewn unrhyw achos o'r fath.

10 O dan Erthygl 17 o'r GDPR, mae gan destunau data hawl pwysig i ddileu, sef yr hyn y cyfeirir ato weithiau fel 'yr hawl i gael eu hanghofio'.

2.5 Trwy ein hymchwil, canfuom fod awdurdodau lleol yn hyderus eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 ac yn gwneud cynnydd cyson wrth roi'r GDPR ar waith. Canfuom fod swyddogion:

a fwy neu lai yn eglur o ran pa bryd ac ym mha amgylchiadau y gallant rannu data â chyrff neu unigolion eraill;

b yn gwybod eu bod yn gyfrifol am sicrhau bod y data'n cael eu prosesu yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data, a pha reolaethau sydd gan eu hawdurdod dros ddata personol;

c yn eglur ynghylch yr hyn y dylent ei wneud os bydd rhywbeth yn mynd o'i le wrth weinyddu a rheoli data; a hefyd

ch yn gwybod lle y mae cymorth ac arweiniad ar gael yn eu sefydliad mewn perthynas â rhannu data personol â chorff cyhoeddus arall.

2.6 Nodwyd nifer o heriau parhaus gennym hefyd, yn enwedig y gwrthwynebiad diwylliannol parhaus mewn rhai awdurdodau i rannu gwybodaeth. Mynegodd Penaethiaid Polisi a Rheolwyr Gweithredol sy'n gyfrifol am wasanaethau rheng flaen bryderon fod y ddeddfwriaeth diogelu data yn eu hatal rhag ymgymryd â phrosiectau y mae defnyddio data personol a sensitif yn rhan ohonynt. Dywedodd nifer hefyd fod diogelu data a'r GDPR yn eu hatal rhag rhannu gwybodaeth â phartneriaid. Nododd eraill fod cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn faich, bod iddi ormod o safonau a gofynion, a'i bod yn anghyson ag ymgyrch y polisi cyfredol i ddatblygu galluoedd 'data mawr' a sicrhau bod rhagor o 'ddata agored' ar gael ar-lein.

2.7 Yn bwysicaf oll, mae pryderon ynghylch diogelu data yn annog ymagwedd o ochel rhag risgiau a mygu arloesedd o ran y defnydd o ddata, a hynny oherwydd bod staff awdurdodau lleol yn ofni y byddant yn cael eu cosbi. Gall goblygiadau cyfreithiol mewn perthynas â gwallau data fod yn niweidiol iawn, ac nid yn unig i enw da'r sefydliad; gall hefyd olygu cosbau sifil mawr, erlyniad troseddol neu gyfreitha yn erbyn unigolion am iawndal.

**Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol…**

"Darbwyllo meysydd busnes ei bod yn bosibl rhannu data pan fo mesurau diogelu priodol ar waith, er mwyn cael gwared ar gamsyniadau na all 'eu' data nhw cael eu rhannu"

**Swyddog Cydymffurfiaeth Gwybodaeth**

"Gall cyfyngiadau o ran diogelwch TGCh a diogelu data atal data rhag cael eu rhannu"

**Rheolwr Gweithredol**

"Mae diogelu data ... yn cyfyngu ar brosesau rhannu data"

**Aelod Etholedig**

2.8 Mae **Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru** (WASPI) yn offeryn i helpu cyrff cyhoeddus i rannu gwybodaeth bersonol rhwng asiantaethau. Mae WASPI yn cwmpasu cyrff a sefydliadau cyhoeddus sy'n ymdrin yn uniongyrchol ag iechyd, addysg, diogelwch, atal troseddau a lles cymdeithasol, a gall helpu sefydliad i gyflawni ei gyfrifoldebau o ran diogelu data, ynghyd â chefnogi'r broses o gydweithredu ac integreiddio data rhwng gwasanaethau. Canfuom fod barn gymysg yn bodoli am fanteision WASPI. Er bod Swyddogion Cydymffurfiaeth Gwybodaeth, ar y cyfan, yn gadarnhaol ynghylch ei fanteision, roedd aelodau Timau Rheoli Corfforaethol a Phenaethiaid Polisi yn ei ystyried yn llai buddiol.

2.9 Canfuom hefyd nifer o faterion sy'n peri pryder. Mae WASPI wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn, ond gall maint y cytundebau fod yn anneniadol, ac mae angen eu diweddaru. Ar ben hyn, er bod pob un o'r prif gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn llofnodwyr, nododd nifer nad yw pob un o'r partneriaid, o'u profiad nhw, yn gweithredu yn unol â, neu yn 'ysbryd', WASPI. Fel llawer o'r ddeddfwriaeth diogelu data, mae rhai swyddogion yn trin WASPI fel rheswm arall dros atal y broses o ran rhannu data, yn hytrach nag fel galluogydd i rannu gwybodaeth, a hynny'n bennaf am nad yw staff rheng flaen bob amser yn hyderus ynghylch eu cyfrifoldebau cyfreithiol, a phryd y gallant rannu data ag eraill.

2.10 Nid yw natur cytundebau WASPI ynddynt eu hunain yn arbennig o ffafriol i rannu data, a hynny am fod yn rhaid bod yn eglur ynghylch yr hyn y dymunir ei gael/rannu, a'r modd y bydd y data'n cael eu defnyddio, cyn rhoi cytundeb rhannu data ar waith. Yn aml, fodd bynnag, nid yw manteision rhannu data yn amlwg hyd nes bod y cytundeb ar waith. Yn olaf, mae materion TGCh, gan gynnwys dulliau diogel o drosglwyddo data a chydnawsedd systemau, yn parhau i fod yn her barhaus i rannu gwybodaeth i rai, ac yn dylanwadu ar ba mor dda, neu beidio, y mae WASPI yn gweithio.

**Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol…**

"Achosion posibl o dorri rheolau o ran y ddeddfwriaeth diogelu data"

**Rheolwr Gweithredol**

"Diogelu data – yn cael ei ddefnyddio fel esgus i atal data rhag cael eu rhannu"

**Rheolwr Gweithredol**

"Gan fod staff yn fwy ymwybodol o ddiogelu data, maent yn ei ofni ac yn ei weld yn rhwystr i rannu – mae angen i ni fynd ati i hyrwyddo mwy ar y ffaith bod diogelu data yn ffordd o rannu gwybodaeth o fewn fframwaith cyfreithiol, nid yn rhwystr"

**Swyddog Cydymffurfiaeth Gwybodaeth**

2.11 Mae hyd yn oed awdurdodau sy'n defnyddio WASPI ac sy'n ystyried ei fod yn gweithio'n dda, megis Cyngor Sir Ddinbych, wedi neilltuo amser i bennu a nodi'n eglur pa wybodaeth bersonol y gallant ei rhannu, a gall hyn gymryd amser maith i'w gael yn iawn. Mae'n amlwg, fodd bynnag, na fydd rhai unigolion yn rhannu gwybodaeth os nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i wneud hynny. Nid oes amheuaeth nad yw neges gref gan arweinwyr yn gallu gwneud gwahaniaeth. Felly, mae i broblemau sy'n ymwneud â rhannu data rhwng cyrff cyhoeddus eu risgiau ymarferol, cyfreithiol a diwylliannol. At hynny, mae awydd staff awdurdodau lleol i rannu eu data yn amrywio, hyd yn oed mewn achosion lle mae'r data, gan fwyaf, yn anhysbys a heb fod yn sensitif.

2.12 Gyda hyn oll mewn golwg, a yw manteision rhannu data â phartneriaid yn gwrthbwyso'r risgiau? Fel y dywedodd un cyfwelai wrth grynhoi'r her, 'Ni fu farw neb trwy rannu gormod o ddata, ond mae yna ddigon o bobl wedi marw trwy beidio â'u rhannu.' Gall canlyniadau peidio â rhannu gwybodaeth fod yn eithafol, fel y barnwyd gan ganfyddiadau nifer o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Achosion Difrifol[11], ac Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig (DHR)[12]. Canfu'r rhain wendidau mewn prosesau rhannu gwybodaeth, a arweiniodd wedyn at golli cyfleoedd i ymyrryd[13]. Mae canfyddiadau'r adolygiadau hyn yn darparu achos argyhoeddiadol dros rannu gwybodaeth mewn ffordd gytbwys, resymol a chaniataol. Gall awdurdodau lleol a'u partneriaid, sydd wedi meistroli'r ddeddfwriaeth, geisio lliniaru risgiau posibl a dechrau elwa ar fanteision defnyddio, integreiddio a rhannu eu data.

11 Cynhelir y rhain ar ôl i blentyn neu oedolyn bregus farw neu gael ei anafu'n ddifrifol dan amgylchiadau lle credir bod cam-drin neu esgeuluso wedi bod yn gysylltiedig â'r digwyddiad.

12 Cynhelir Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig pan fydd rhywun sy'n 16 oed neu'n hŷn yn marw o ganlyniad i drais, camdriniaeth neu esgeulustod gan berthynas, aelod yn y cartref neu rywun y bu mewn perthynas agos ag ef. Mae'r adolygiadau hyn yn edrych ar yr amgylchiadau a arweiniodd at y farwolaeth er mwyn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall yr hyn a ddigwyddodd a'r hyn y mae angen ei newid er mwyn lleihau'r risg o rywbeth fel hyn yn digwydd eto.

13 Er enghraifft, canfyddiadau mis Chwefror 2015 Adroddiad Trosolwg Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru ar blant a fu farw mewn tân mewn tŷ yn 2012.

# Rhan 3

## Nid yw awdurdodau lleol yn buddsoddi digon yn eu galluoedd rheoli data a'u sgiliau dadansoddi



3.1 Mae gan awdurdodau lleol adnodd enfawr o ran dirnadaeth, gwybodaeth a data, sydd â'r potensial i lywio effeithlonrwydd, dyrannu adnoddau mewn modd uniongyrchol, a gwella'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu. Bydd awdurdod lleol aeddfed yn defnyddio data i wella gwasanaethau a thrawsnewid ei sefydliad, a bydd ganddo staff ac Aelodau Etholedig sy'n defnyddio data mewn modd medrus a hyderus. Felly, mae meddu ar sgiliau dadansoddi data da i lywio a chyfarwyddo penderfyniadau ynghylch adnoddau yn elfen allweddol o ddull aeddfed o ddefnyddio data.

Mae dadansoddiadau data yn cyfeirio at y broses o groeswirio, glanhau, ad-drefnu a modelu data ar gyfer prosesau gwneud penderfyniadau. Mae dadansoddwyr data yn casglu, trefnu, prosesu a modelu data o ffynonellau gwahanol er mwyn dod i gasgliad. Mae dadansoddwyr yn gallu gwerthuso symiau mawr o ddata, boed yn ddata strwythuredig neu anstrwythuredig, ynghyd â pharatoi a chyflwyno data yn y ffurf gywir ar gyfer penderfynwyr ac i helpu i ddatrys problemau. Yn oes y data mawr, mae rôl dadansoddeg data yn bwysig i'r busnes.

3.2 Yn gyffredinol, nid oes gan awdurdodau lleol y sgiliau na'r gallu cywir i reoli data mewn modd effeithiol. Y maes gwannaf a'r her fwyaf arwyddocaol a nodwyd gennym oedd adnoddau sy'n lleihau a diffyg sgiliau, yn enwedig o ran rheoli a dadansoddeg data. Er gwaethaf cydnabod bod data amserol ac o ansawdd da yn bwysig i fusnes awdurdodau, nid oes gwerth cyson yn cael ei roi ar ddata fel adnodd allweddol tebyg i arian, pobl ac adeiladau.

3.3 Mae awdurdodau lleol yn cydnabod bod recriwtio a chadw pobl sydd â'r sgiliau cywir yn her barhaus. Nododd nifer o gyfweleion fod toriadau yn y gyllideb yn trethu adnoddau a gallu, ac y gall awdurdodau gael cryn drafferth cynnal sgiliau TGCh ar brydiau. Yn gyffredinol, mae Penaethiaid TGCh a Pholisi awdurdodau lleol yn fwy negyddol ynghylch digonolrwydd adnoddau ar gyfer prosiectau rheoli data, gan dynnu sylw yn benodol at allu annigonol i gynnal uniondeb a chywirdeb cronfeydd data. Yn yr un modd, mae awdurdodau lleol yn cydnabod bod angen iddynt wneud rhagor i nodi eu hanghenion data a gwybodaeth hirdymor penodol yn y dyfodol, ac i fapio'r gofynion o ran adnoddau yn erbyn y rhain.

**Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol…**

"Adnoddau! Mae angen rhagor o adnoddau o ran staff a thechnoleg i wneud y defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o ddata"

**Aelod o Dîm Rheoli Corfforaethol**

"Adnoddau – systemau gwael a gwydnwch annigonol ymhlith y grŵp staff"

**Rheolwr Gweithredol**

"Diffyg adnoddau i reoli a dadansoddi data yn iawn"

**Pennaeth TGCh**

3.4 Mae arferion datblygu staff da yn bodoli yn y maes hwn. Mae awdurdodau lleol sy'n amlygu lefelau uwch o aeddfedrwydd wrth reoli data, er enghraifft Cyngor Dinas Casnewydd, wedi integreiddio swyddogaethau corfforaethol hanfodol, er enghraifft llywodraethu gwybodaeth, gwella busnes a datblygu polisi. Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi mesur y gallu cyfredol i ddadansoddi data, ac wedi nodi oddeutu 50 o weithwyr a ymgymerodd â gwaith dadansoddi data yn rhan o'u dyletswyddau dyddiol. O ganlyniad, mae'r awdurdod lleol yn creu adnodd canolog i ddatblygu a gwella sgiliau a gallu staff er mwyn helpu i sefydlu prosesau gwneud penderfyniadau dan arweiniad data, ac ennyn gwell dirnadaeth o alw cwsmeriaid am wasanaethau. Enghraifft arall yw'r strategaeth rheoli gwybodaeth a grëwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych, sy'n cael ei hystyried yn strategaeth dda. Mae'n canolbwyntio ar feithrin sgiliau a gallu mewn perthynas â data – gweler Atodiad 3 am ragor o fanylion.

3.5 Mae dogfennau a adolygir yn rhan o'n gwaith astudio yn aml yn amlygu'r ffaith bod polisïau rheoli data a gwybodaeth yn canolbwyntio ar dechnoleg TGCh – caledwedd a meddalwedd cyfrifiadurol, storfeydd cwmwl a thelathrebu integredig – ond nid digon ar wella'r defnydd o ddata a sgiliau dadansoddeg ymysg staff. Er bod y seilwaith TGCh a'r bensaernïaeth sy'n cysylltu systemau a data yn bwysig er mwyn rhannu data a'u holi, mae angen datblygu a gwella galluoedd staff awdurdodau lleol a'u hyddysgrwydd mewn data hefyd. Yn rhy aml, fodd bynnag, nid yw staff awdurdodau lleol yn cael eu hyfforddi yn unol â graddfa a chyflymder y newid technolegol a'r galw am ddadansoddeg data.

**Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol…**

"Gostyngiadau mewn lefelau staffio, a bylchau sgiliau – yn benodol staff sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth dda o ran y systemau meddalwedd gwahanol a ddefnyddir i reoli data"

**Rheolwr Gweithredol**

"Meddu ar adnoddau i gipio ac yna ddadansoddi data i greu'r wybodaeth sy'n ofynnol i sicrhau gwasanaethau o ansawdd cynaliadwy"

**Aelod o Dîm Rheoli Corfforaethol**

"Deall pŵer data, a'r sgiliau i wneud defnydd da o ddata"

**Aelod Etholedig**

3.6 Er enghraifft, ni chanfuom fawr ddim tystiolaeth i ddangos bod awdurdodau lleol yn ymgorffori sgiliau data yn eu strategaethau gweithlu, ac mae lefelau gwael o hyddysgrwydd mewn data yn thema ailadroddus sy'n deillio o'n hofferyn data. Yn aml, nid yw staff nac aelodau etholedig yn hyderus wrth ddefnyddio'r data sydd ganddynt, yn enwedig gwybodaeth gan drydydd partïon. Mae rhai awdurdodau lleol hefyd yn gweld dadansoddeg fel swyddogaeth arbenigwyr data, sydd y tu allan i fusnes craidd rheoli a chyflenwi gwasanaethau.

**Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol…**

"Prinder adnoddau a sgiliau ym maes dadansoddeg data"


**Pennaeth Polisi**

"Adnodd i gynnal data ar lefelau priodol o ran cywirdeb a diweddariadau er mwyn adlewyrchu'r elfennau hynny sydd wedi newid"

**Rheolwr Gweithredol**

Rhan 4

# Mae awdurdodau lleol yn defnyddio data i reoli perfformiad, ond mae bylchau a gwendidau yn golygu nad yw penderfyniadau bob amser yn seiliedig ar ystod lawn o dystiolaeth



4.1 Mae gwneud penderfyniadau dan arweiniad data yn ddull o lywodraethu sy'n rhoi gwerth ar benderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata dilysadwy. Fodd bynnag, mae llwyddiant yn y dull gweithredu dan arweiniad data hwn yn dibynnu ar ansawdd y data a gesglir, effeithiolrwydd y broses o'u dadansoddi a'u dehongli, a'r prosesau a sefydlwyd i farnu effaith a pherfformiad. Mae Eitem 6 yn crynhoi amodau allweddol awdurdod lleol aeddfed, sydd â diwylliant gwneud penderfyniadau dan arweiniad data, yr ydym wedi'i nodi o'n hastudiaeth.

Eitem 6 – Creu diwylliant 'gwneud penderfyniadau dan arweiniad data'

- ☐ Cydnabod bod data o ansawdd da yn bwysig mewn prosesau gwneud penderfyniadau, ond mai pobl sy'n gorfod gwneud y penderfyniadau o hyd, a bod yn rhaid iddynt fod yn hyddysg mewn data i wneud hynny
- ☐ Rhagor o waith gwerthuso systematig i sicrhau bod pethau da yn cael eu hailadrodd ac yr eir i'r afael â meysydd gwannach
- ☐ Meddu ar y sgiliau i droi data craidd yn dystiolaeth ddefnyddiadwy i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau sy'n dryloyw a gwybodus

- ☐ Amlygu gwerth ac effaith defnyddio data, gan wneud y broses werthuso yn un ailadroddol
- ☐ Cynnwys partneriaid, grwpiau defnyddwyr ac eiriolwyr, a rhwydweithiau sydd â diddordeb, wrth ddatblygu prosesau adrodd ar ddata
- ☐ Defnyddio data 'byw' i reoli, addasu, cymhwyso a gwerthuso perfformiad
- ☐ Darparu 'data agored' fel anghenraid

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

## Mae'r gwaith o ddadansoddi perfformiad yn aml yn gyfyngedig

4.2 Nid yw hanfodion dulliau da ac aeddfed o graffu ar berfformiad awdurdodau lleol wedi newid, ac mae adolygu'r ystod eang o ddata sydd ar gael i farnu pa mor dda y mae gwasanaethau yn perfformio yn hanfodol. Mae canfyddiadau ein hastudiaeth yn amlygu bod rhai gwendidau hirsefydlog yn parhau o ran effeithiolrwydd trefniadau craffu awdurdodau lleol. Mae ansawdd a dibynadwyedd data yn parhau i fod yn bryder, yn enwedig o ran cysylltu ffynonellau lluosog a thynnu tystiolaeth ohonynt. Yn gyffredinol, mae roedd gan y rhanddeiliaid, megis cyrff ymchwil a grwpiau defnyddwyr gwasanaethau, a gyfwelwyd gennym farn negyddol am ansawdd a hygyrchedd prosesau adrodd ar berfformiad awdurdodau lleol. Nododd y cyfweleion ddefnydd gwael o feincnodi, a ffocws ar gynulleidfaoedd mewnol yn hytrach na rhai allanol wrth adrodd, sy'n ei gwneud hi'n anodd i ddefnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion farnu sut mae awdurdodau lleol yn perfformio.

4.3 Nododd rhai Aelodau Etholedig fod yr wybodaeth a ddaw i law yn aml yn gyfyngedig ei chwmpas, ac nad yw'n rhoi dirnadaeth ddigonol iddynt allu herio perfformiad. Nododd eraill fod swyddogion, dro ar ôl tro, yn gorlethu pwyllgorau craffu, gan ddarparu swmp o wybodaeth ond fawr ddim gwaith gwerthuso a dadansoddi defnyddiol ar y materion amlycaf. Mynegodd lleiafrif ymysg yr Aelodau Etholedig bryderon fod yr wybodaeth a ddaw i law yn cael ei 'thrin', neu'n wybodaeth rannol ei chwmpas, er mwyn osgoi newyddion drwg a gwaith craffu pellach.

**Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol…**

"Cael aelodau i ddeall y data. Fel aelod o'r Cabinet yr wyf yn dod gerbron y Pwyllgor Trosolwg ac nid wyf yn cael fy holi fel y dylwn, achos bod aelodau naill ai heb ddarllen yr adroddiadau neu heb eu deal"

**Aelod Etholedig**

"Mae'r awdurdod yn ddetholus iawn o ran y data y mae'n eu rhannu ag aelodau, a gall fod yn ochelgar pan ofynnir am ragor o fanylion"

**Aelod Etholedig**

"Y gallu i wahaniaethu rhwng data defnyddiol a data llai defnyddiol, a bod yn wybodus o ran y modd y dylid defnyddio'r data hynny i fesur perfformiad a llywio newid"

**Aelod Etholedig**

4.4 Adleisiodd y rhanddeiliaid a gyfwelwyd gennym y safbwyntiau hyn, gan ddweud eu bod yn pryderu nad yw'r data a ddefnyddir i gyfiawnhau penderfyniadau yn gadarn nac yn ddibynadwy. Er enghraifft, y cyfyngiadau o ran y data a ddefnyddir wrth asesu'r effaith ar gydraddoldeb, mater yr ydym wedi tynnu sylw ato dro ar ôl tro yn ein gwaith archwilio cenedlaethol mwyaf diweddar[14]. Mae prosesau adrodd cywir a gwaith craffu cytbwys, effeithiol yn allweddol i lywodraethu da. Er mwyn meithrin ymddiriedaeth y cyhoedd mewn data, mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn adrodd mewn modd tryloyw a chywir, a bod Aelodau Etholedig yn sicrhau eu bod yn gweithredu mewn modd cyfrifol wrth herio gwasanaethau a chraffu ar berfformiad.

## Mae awdurdodau lleol yn cynyddu swm y data agored y maent yn ei gyhoeddi

4.5 Mae data agored yn nodwedd bwysig o aeddfedrwydd data, a gall sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn amser real helpu ystod eang o sefydliadau i ddatblygu busnesau a gwasanaethau newydd. Gall data agored arwain at well prosesau rhannu data ledled sefydliadau ac ardaloedd daearyddol. Fodd bynnag, er bod data agored yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau tryloyw, canfuom fod yna beth ffordd i fynd o hyd i argyhoeddi rhai fod data agored yn gyfle ac nid yn fygythiad. Er enghraifft, mynegodd rhai Aelodau Etholedig a swyddogion awdurdodau lleol bryder y gall data agored olygu bod rhai agweddau ar eu barn broffesiynol yn ddiangen.

14 Gweler adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol: **Sut mae Llywodraeth Leol yn rheoli galw – Digartrefedd** ac **Addasiadau Tai**.

4.6 Y canfyddiad ymhlith rhai grwpiau o ddefnyddwyr ac eiriolwyr a gyfwelwyd gennym yw bod awdurdodau lleol yn cymryd camau bach i'r cyfeiriad cywir i ddefnyddio data agored, a hynny er mwyn annog prosesau datblygu cynhyrchion neu wasanaethau newydd i ddiwallu anghenion cwsmeriaid. Mae rhanddeiliaid o'r farn mai dim ond lle y gall awdurdodau lleol greu galw amdano a lle bo cronfa leol o weithredwyr addysgedig/medrus ar gael y gall data agored weithio. Roedd y trydydd sector a'r cyrff cynrychioliadol a gyfwelwyd gennym yn meddwl bod yna ddiffyg sgiliau mawr mewn sawl rhan o Gymru ar hyn o bryd i allu gwneud y gorau o ddata agored.

4.7 Serch hynny, mae argaeledd data agored yn cynyddu. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys gwaith delio â'r cyhoedd yng Nghasnewydd, er enghraifft y porth gwybodaeth **Fy Nghasnewydd**[15], sy'n cynnwys proffiliau manwl o'r wardiau. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn sicrhau bod data agored ar gael trwy ei wefan a'r porth **GwasanaethauFyNghyngor**[16], sy'n cwmpasu sgoriau hylendid bwyd, lleoliadau a chyflwr henebion, lleoliadau asedau'r awdurdod, megis biniau graean, a dalgylchoedd ysgolion. Mae Heddlu De Cymru yn defnyddio adran cymdogaeth **EichArdal** i roi gwybod i bobl am droseddau a digwyddiadau yn eu hardal, ac i gael adborth. Mae pob tudalen yn cynnwys manylion cyfarfodydd yn y dyfodol, blaenoriaethau lleol, manylion am bob swyddog a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol, a dolen i dudalen Police.uk, sy'n darparu ystadegau troseddu a gyhoeddir gan y Swyddfa Gartref. Mae **Porth Data Agored**[17] a **Siarter Data Agored** Camden yn arbennig o arloesol. Gweler Atodiad 3 isod am ragor o fanylion am arferion da.

**Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol…**

"Cael aelodau i ddeall y data. A minnau'n aelod o'r Cabinet, rwy'n dod gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, ac nid wyf yn cael fy nghwestiynu fel y dylwn am nad yw'r aelodau naill ai wedi darllen yr adroddiadau neu'n eu deall"

**Aelod Etholedig**

15 Gweler **newport.gov.uk/iShare/mynewport**

16 Gweler **torfaen.gov.uk/MyCouncilServices**

17 Gweler **opendata.camden.gov.uk**

## Nid yw prosesau gwneud penderfyniadau bob amser yn cael eu llywio gan waith dadansoddi neu werthuso data effeithiol

4.8 Mae gwneud penderfyniadau dan arweiniad data yn elfen allweddol o aeddfedrwydd llywodraeth leol wrth ddefnyddio data. Mae ein meini prawf ar gyfer awdurdod lleol sydd â lefelau uchel o aeddfedrwydd data i'w gweld yn Eitem 3 (Paragraff 9 ar dudalennau 6 a 7), ac maent yn awgrymu bod y lefel uchaf o aeddfedrwydd yn bodoli lle y mae prosesau gwneud penderfyniadau dan arweiniad data wedi hen ymsefydlu ac yn cael eu derbyn fel y 'ffordd o fynd ati i wneud pethau'. Mae rhai nodweddion pwysig yn perthyn i'r sefydliadau hynny sy'n ymgorffori dull aeddfed o wneud penderfyniadau dan arweiniad data. Maent yn deillio o'r canlynol, ac wedi'u seilio arnynt:

a arweinyddiaeth eglur;

b polisïau, systemau a phrosesau cadarn;

c digon o adnoddau a sgiliau sy'n esblygu; a hefyd

ch prosesau dadansoddi, adrodd a gwerthuso da.

Mae ein gwaith yn amlygu bod yr holl amodau hyn yn ofynnol, a'u bod yn gysylltiedig ac yn gefnogol i'r naill a'r llall.

**Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol…**

"Ymddengys bod unrhyw ddangosyddion perfformiad a ddisgrifir yn rhai da yn cael eu disgrifio felly am fod y Cyngor yn gwneud gwaith gwych. Ar y llaw arall, mae'r dangosyddion hynny sy'n amlygu nad ydynt yn gwneud yn dda yn ganlyniad, fel y dywedir wrthym, i awdurdodau lleol eraill yn cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd wahanol, neu ddiffyg cyllid"

**Aelod Etholedig**

"Mae'r data, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â pherfformiad ysgolion, yn annibynadwy gan amlaf, ac fe'u cyflwynir fynychaf i aelodau heb iddynt fod yn destun unrhyw brofion ystadegol"

**Aelod Etholedig**

4.9 Trwy ein gwaith maes, canfuom fod Aelodau Etholedig, swyddogion a rhanddeiliaid, yn gyffredinol, yn cydnabod y gall data helpu awdurdodau lleol i bennu blaenoriaethau a gwneud gwell dewisiadau wrth gynllunio mentrau i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Fodd bynnag, yn achos mwyafrif yr awdurdodau, dim ond dechrau mynd i'r afael â'r holl ddata sydd ganddynt y maent, ynghyd â'r holl ffyrdd y gallent eu defnyddio i wella penderfyniadau a chanlyniadau. Ar y cyfan, rydym yn casglu bod gan awdurdodau lleol rywfaint o ffordd i fynd eto er mwyn creu diwylliant gwneud penderfyniadau dan arweiniad data.

4.10 Canfuom nad yw awdurdodau bob amser yn manteisio ar y cyfle i gysylltu setiau data fel y gallant gryfhau'r gwaith dadansoddi a sicrhau dirnadaeth fwy canolbwyntiedig, yn enwedig mewn perthynas â chysylltu data am gostau a pherfformiad i ddeall costau gweithgarwch craidd, er enghraifft penderfynu ar gais cynllunio neu gasglu bin sbwriel.

4.11 Wrth archwilio cynlluniau corfforaethol pob un o'r 22 o awdurdodau lleol, rydym wedi canfod bod yna rai diffygion cyffredin. Yn gyffredinol, mae gwaith meincnodi, dadansoddi data cymharol, a rhagfynegi yn wan. Mae gwybodaeth a data cymharol yn gyfyngedig, gyda fawr ddim cymariaethau â meysydd eraill na sefydliadau cymaradwy y tu allan i Gymru. Er enghraifft, prin yw'r gwaith dadansoddi rhagfynegol[18], sy'n cynnwys amrywiaeth o dechnegau ystadegol i fodelu ffeithiau cyfredol a hanesyddol fel y gellir gwneud rhagfynegiadau ynghylch senarios yn y dyfodol. Yn yr un modd, ychydig o awdurdodau a gyfeiriodd at fwyngloddio data[19] neu ddadansoddi yn ôl segmentau[20].

4.12 Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol yn parhau i ganolbwyntio ar wybodaeth reoli hanesyddol, ac yn cytuno nad oes digon o waith dadansoddi yn cael ei wneud ar ragamcanu galw nac ar amcangyfrif tueddiadau hirdymor mewn perfformiad. Mae'r gallu i gymharu ag eraill ac edrych i'r dyfodol yn offer rheoli pwysig, ond mae gallu cyfyngedig awdurdodau lleol a sgiliau annigonol mewn dadansoddeg data yn cyfyngu'r potensial i ddefnyddio data i fodelu a thrawsnewid gwasanaethau.

18 Mae gwaith modelu rhagfynegol yn helpu i nodi perthnasoedd, ymysg llawer o ffactorau, fel y gellir cynnal asesiad o risg neu botensial sy'n gysylltiedig â set benodol o amodau. Mae modelau rhagfynegol yn dadorchuddio patrymau mewn data hanesyddol a data trafodion i nodi cyfleoedd ar gyfer penderfynwyr.

19 Mwyngloddio data yw'r broses o ddarganfod patrymau mewn data mawr a thynnu gwybodaeth ohonynt i'w rhoi mewn strwythur dealladwy i'w ddefnyddio ymhellach.

20 Segmentu yw'r gweithgarwch o rannu marchnad, sydd fel arfer yn cynnwys cwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaethau cyfredol a phosibl, i is-grwpiau (segmentau) sy'n seiliedig ar nodweddion cyffredin neu nodweddion a rennir, er enghraifft anghenion, diddordebau cyffredin, ffyrdd tebyg o fyw, neu hyd yn oed broffiliau demograffig tebyg, fel y gellir nodi'r twf posibl ac, o hynny, gynllunio ar gyfer newid a thargedu ymatebion yn well.

4.13 Gwelsom rai enghreifftiau o awdurdodau lleol yn dadansoddi data i wella gwasanaethau a gwneud penderfyniadau mwy gwybodus. Er enghraifft, mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi dadansoddi'r gwaith o gydgysylltu gwasanaethau cyflogaeth ac, o ganlyniad, wedi rhesymoli ac ailffocysu ei hymdrechion i gefnogi'r broses o greu swyddi. Yn yr un modd, mae Cyngor Sir Ddinbych yn defnyddio data i ddarparu dirnadaeth o anghenion dinasyddion wrth iddo ystyried amseroedd agor llyfrgelloedd a chynllunio llwybrau casglu gwastraff effeithlon. Yn gyffelyb, dadansoddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ei ddata ar rwystrau ym maes gofal maeth, ac aeth ati i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac ymgyrchoedd recriwtio i gynyddu nifer y gofalwyr maeth.

4.14 Neges gyson o'n gwaith maes yw mai un o'r heriau mwyaf yw gwneud gwell defnydd o ddata 'byw' i reoli gwasanaethau, ond hefyd i werthuso perfformiad. Yn wahanol i wasanaethau brys, megis y gwasanaethau Heddlu a Thân ac Achub, sy'n dibynnu'n fwyfwy ar ddata byw i gyfeirio adnoddau ac ymateb yn gyflym i argyfyngau, dim ond weithiau y bydd awdurdodau lleol yn defnyddio gwybodaeth 'fyw' (er enghraifft, adborth ar y cyfryngau cymdeithasol) i addasu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a sicrhau'r perfformiad gorau. Yn yr un modd, er bod awdurdodau yn defnyddio data i reoli adnoddau a phenderfynu arnynt, nid yw adroddiadau ariannol, yn aml, yn ddigon ystwyth i wneud penderfyniadau amser real, a hynny oherwydd yr oedi cyn cynhyrchu data cyllideb ar gyfer penderfynwyr. Mae gwneuthurwyr polisi cenedlaethol yn adleisio'r casgliadau hyn, gan nodi bod yna rai heriau sylweddol yn bodoli o ran y modd y gall llywodraeth leol wella ei defnydd o ddata[21]. Daethom i'r casgliad bod yna fwy y gall awdurdodau lleol ei wneud i greu amgylchedd gwneud penderfyniadau dan arweiniad data sy'n cefnogi'r broses o wella a thrawsnewid gwasanaethau.

21 Er enghraifft, Llywodraeth Cymru **Gwaelodlin digidol awdurdodau lleol yng Nghymru** 2017

# Atodiadau

Atodiad 1 – Methodoleg yr astudiaeth

Atodiad 2 – Geirfa

Atodiad 3 – Arferion da wrth ddefnyddio data





# Atodiad 1 – Methodoleg yr astudiaeth

Offeryn Data – wedi'i gwblhau gan bob un o'r 22 o awdurdodau lleol sy'n cynnwys Tîm Rheoli Corfforaethol, Rheolwyr Gweithredol, Penaethiaid TGCh a Pholisi, Swyddog Cydymffurfiaeth Gwybodaeth ac Aelodau Etholedig. Mae'r ymatebion i'n Hofferyn Data wedi'u nodi isod:

| Y Grwpiau o Ymatebwyr | Y nifer a wahoddwyd | Y nifer a ymatebodd | Y ganran a ymatebodd |
|---|---|---|---|
| Aelodau'r Tîm Rheoli Corfforaethol | 203 | 94 | 46% |
| Aelodau Etholedig | 1,259 | 295 | 23% |
| Rheolwyr Gweithredol | 851 | 434 | 51% |
| Y Swyddog Cydymffurfiaeth Gwybodaeth | 22 | 13 | 59% |
| Y Pennaeth Polisi | 22 | 14 | 64% |
| Y Pennaeth TGCh | 23 | 14 | 61% |
| **Cyfanswm** | **2,380** | **864** | **36%** |

Cyfweliadau cenedlaethol ag arweinwyr ym maes defnyddio data: Nesta UK, Nesta Cymru, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru, CLILC, Ofcom, Google UK, The Satori Lab, Pinacl Solutions, The Alliance for Useful Evidence, Canolfan Gwyddor Data UCL, StatsCymru, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Awdurdod Llundain Fwyaf, Brigâd Dân Llundain, a Chyngor Camden.

Cyfweliadau â grwpiau o ddefnyddwyr ac eiriolwyr, gan gynnwys: CVS Cymru, Gofalwyr Cymru, Sipsiwn a Theithwyr Cymru, Panel Defnyddwyr Ystadegau Trydydd Sector Cymru, a Phanel Dinasyddion Caerdydd.

Gwaith maes yng Nghyngor Sir Ddinbych, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bro Morgannwg.



Adolygu'r defnydd o ddata yng Nghynlluniau Lles Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Arolwg sampl o 750 o aelodau o'r cyhoedd ledled Cymru gyfan ynghylch eu hymwybyddiaeth o ddefnydd awdurdodau lleol o'r wybodaeth a gedwir amdanynt.

# Atodiad 2 – Geirfa

- **Data:** gwybodaeth ffeithiol yw data, megis mesuriadau neu ystadegau, a ddefnyddir yn sail i waith rhesymu, trafod neu gyfrifo y gellir ei drosglwyddo neu ei brosesu.
- **Ystadegau:** niferoedd, data a gwybodaeth yw ystadegau, sef y sail a'r dystiolaeth sylfaenol ar gyfer penderfyniadau.
- **Gwybodaeth**: y ddirnadaeth ymarferol a feithrinir gan ymarferwyr i helpu i wneud y defnydd gorau o'r data a'r wybodaeth sydd ar gael er gwella'r broses o weithredu mandad y sefydliad.
- **Cudd-wybodaeth**: y strategaethau a'r technolegau a ddefnyddir gan sefydliadau i ddadansoddi data. Defnyddir y term yn aml gan yr Heddlu i olrhain a rhagfynegi troseddau, er mwyn eu hatal neu eu ffrwyno.
- **Tystiolaeth**: yn aml, data wedi'u dadansoddi yw tystiolaeth, a all helpu penderfynwyr i ddeall yr hyn sy'n gweithio, ym mha le, am ba reswm, ac ar gyfer pwy. Gall hefyd amlygu'r hyn nad yw'n gweithio, a golygu y gellir osgoi ailadrodd methiannau sefydliadau eraill trwy fynd ati i ddysgu am werthusiadau o raglenni aflwyddiannus.
- **Digido**: cyfleuster ar gyfer dinasyddion a busnesau i ymgysylltu ag awdurdodau lleol dros y Rhyngrwyd, ac i staff ac Aelodau Etholedig gyflawni eu cyfrifoldebau gydag adnoddau cyfrifiadurol newydd a datblygol. Mae hefyd yn galluogi busnesau a dinasyddion i ymgysylltu â bywyd ar-lein gyda'r awdurdod lleol, a thu hwnt i'r awdurdod lleol.
- **Diogelu data**: ystyr data personol yw gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag unigolyn byw unigryw. Pan fo data personol yn cael eu prosesu, eu casglu, eu cofnodi, eu storio neu eu gwaredu, rhaid i'r gwaith gael ei wneud yn unol â thelerau'r Ddeddf Diogelu Data. Nod y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yw rhoi rheolaeth i ddinasyddion a phreswylwyr dros eu data personol, ac mae'n berthnasol i 'reolwyr'/'broseswyr' data
- **Rhannu data**: mae'r broses o ddatgelu data o un sefydliad neu ragor i sefydliad trydydd parti, neu rannu data rhwng rhannau gwahanol o sefydliad i'w gweld yn ICO data_sharing_code_of_practice.pdf.
- **Data mawr**: gall data mawr roi gwell dirnadaeth a chynorthwyo prosesau gwneud penderfyniadau, ond gallant fod yn anodd eu dadansoddi os defnyddir dulliau dadansoddi data traddodiadol.
- **Data agored**: Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn rhoi mwy a mwy o ddata gwerthfawr yn y parth cyhoeddus, sy'n galluogi dinasyddion i ddarganfod mwy nag erioed o'r blaen am berfformiad gwasanaethau cyhoeddus, a dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif.
- **Dadansoddeg data**: y broses o groeswirio, glanhau, ad-drefnu a modelu data ar gyfer prosesau gwneud penderfyniadau.
- **Data personol**: gwybodaeth sy'n ymwneud â tharddiad hiliol neu ethnig; barn wleidyddol, credoau crefyddol neu gredoau eraill; aelodaeth neu fel arall o undeb llafur; cyflwr corfforol neu feddyliol; bywyd rhywiol unigolyn, ac unrhyw drosedd a gyflawnwyd neu yr honnwyd iddi gael ei chyflawni, neu'r penderfyniad neu'r ddedfryd gan lys mewn unrhyw achos o'r fath.


# Atodiad 3 – Arferion da wrth ddefnyddio data

| **Nodwedd Allweddol** | **Enghreifftiau o arferion da** |
|---|---|
| Arweinyddiaeth<br> | **Yr arweinyddiaeth genedlaethol ar ddata**<br><br>**Mae Cynllun Gweithredu Digidol Llywodraeth Cymru 2017-2020** yn hyrwyddo data fel adnodd gwerthfawr, ac yn anelu at ddarparu arweinyddiaeth a rhagor o gymorth i arweinwyr digidol ledled Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn nodi'r angen i wella'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu, a hynny trwy wneud y canlynol: bod yn y fan lle mae'r dinasyddion; grymuso dinasyddion Cymru; a gwneud defnydd effeithlon o adnoddau trwy ddefnyddio technoleg ddigidol i sicrhau newid sylweddol yn ei allu i gyflawni'r nodau hyn. Mae'r cynllun yn darparu fframwaith i gyflawni hyn, ac mae'n seiliedig ar gael arweinwyr digidol ysbrydoledig a hyderus ar bob lefel, sgiliau newydd, cynnwys pobl yn y broses o ddatblygu polisïau a deddfwriaeth, a gwneud data'n agored yn ddiofyn.<br><br>**Datblygu arweinyddiaeth ar ddata i fod yn drawsnewid sefydliadol**<br><br>Mae Strategaeth Trawsnewid Digidol Cyngor Sir Caerfyrddin 2017-2020 yn cydnabod bod angen technoleg ddigidol briodol ar y cyngor er mwyn iddo arbed arian a gwella gwasanaethau, a hynny trwy gydweithio â phartneriaid a rhannu a defnyddio data o ansawdd da mewn modd di-dor. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod meithrin hyder y cyhoedd mewn prosesau diogelu gwybodaeth cadarn, sy'n amddiffyn data dinasyddion a busnes rhag camddefnydd a bygythiadau seiber, yn ganolog i wella mynediad at wasanaethau a chefnogi'r symudiad tuag at greu data mwy agored. |
| Safonau Corfforaethol<br> | **Meithrin y gallu i lywio diwylliant mwy cydweithredol**<br><br>Mae Sir y Fflint Ddigidol 2017-2022 yn amlinellu'r modd y bydd Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol yn cael eu defnyddio i gefnogi Blaenoriaethau Gwella a chynlluniau strategol y Cyngor Sir dros y pum mlynedd nesaf. Yr hyn sy'n gwneud Sir y Fflint Ddigidol yn wahanol i strategaethau eraill yw'r ffocws ar wella'r seilwaith digidol lleol, ynghyd â sicrhau bod gan gwsmeriaid y sgiliau digidol i gyrchu gwasanaethau a gwybodaeth ar-lein. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid, y trydydd sector a darparwyr hyfforddiant lleol i nodi a darparu hyfforddiant effeithiol ar gyfer cwsmeriaid, a hynny er mwyn sicrhau bod pobl yn manteisio ar wasanaethau digidol, a chefnogi cynhwysiant. |

<table>
<tr><th>Nodwedd Allweddol</th><th>Enghreifftiau o arferion da</th></tr>
<tr><td>Data cwsmeriaid integredig<br></td><td>Un ‘Porth’ i wasanaethau awdurdodau lleol<br><br>Yn 2013, datblygodd Bwrdeistref Camden yn Llundain Fynegai Preswylwyr, gan gyfuno gwybodaeth o ffynonellau data lluosog yn y cyngor i greu un cofnod cyson am breswylwyr ledled y fwrdeistref, ynghyd â’r gwasanaethau yn y cyngor y maent yn eu defnyddio. Roedd Camden, fel pob awdurdod lleol, dan bwysau i gyflawni arbedion cost, ynghyd â sicrhau gwelliant parhaus i’w lefelau gwasanaeth a chyflawni ei amcanion cymdeithasol ar yr un pryd. Er mwyn mynd i’r afael â’r heriau hyn, penderfynodd Camden gyfuno gwybodaeth a oedd mewn seilos cyn hynny i ffurfio cofnod cynhwysfawr o ymgysylltiad preswylwyr â’r gwasanaethau.<br><br>Sylweddolodd Camden y gallai mabwysiadu ymagwedd ‘meddwl trwy systemau’ ei helpu i sicrhau na fyddai angen i breswylwyr a fyddai’n cofrestru eu manylion gydag un gwasanaeth – er enghraifft tai – roi’r un wybodaeth eto i wasanaethau eraill. Yn yr un modd, roedd y cyngor am rymuso ei staff ei hun i weithio mewn modd mwy effeithlon, a hynny trwy gasglu gwybodaeth yn awtomatig gan adrannau eraill.<br><br>Cafwyd nifer o ganlyniadau cadarnhaol o greu’r Mynegai Preswylwyr, yn cynnwys:<ul><li>helpu i nodi achosion o isosod tai cyngor yn anghyfreithlon, ynghyd â nodi achosion o dwyll mewn perthynas â derbyniadau i ysgolion, gan felly sicrhau bod adnoddau gwerthfawr yn mynd i’r preswylwyr sy’n gymwys ar eu cyfer;</li><li>galluogi’r tîm Gwasanaethau Etholiadol i gadw cofrestr gywir o etholwyr yn y fwrdeistref. Llwyddodd y Mynegai Preswylwyr i ddilysu 80% o’r data o’r gofrestr etholiadol (sy’n uwch na’r gyfradd o 50% gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, sydd fel rheol yn dilysu data etholiadol y cyngor); a</li><li>darparu gwybodaeth hanfodol i gefnogi hyb Diogelu Amlasiantaethol y Cyngor yn ei waith o nodi newidiadau yng nghyfansoddiad cartrefi lle mae plant agored i niwed yn byw.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Diogelu Data<br></td><td>Rhannu data mewn modd saff a diogel<br><br>Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych wedi datblygu ystod o wybodaeth a pholisïau i annog prosesau rhannu data saff a diogel ymysg partneriaid cyfansoddol. Mae’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi adeiladu ar waith blaenorol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, a bydd Strategaeth Gwybodaeth a Phecyn Cymorth Rhannu Gwybodaeth yn cael eu diweddaru. Mae’r deunydd hyfforddi yn canolbwyntio ar rannu data mewn modd cyfreithlon, cynnwys Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru, a datblygu ystod o brotocolau a chynhyrchion rhannu gwybodaeth. Mae’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn fwy abl i amlygu’r modd y mae wedi defnyddio data o ansawdd da i lunio ei flaenoriaethau strategol ar gyfer Lles Meddyliol Da ar gyfer Pobl Hŷn; Grymuso Cymunedol; a Gwydnwch Amgylcheddol. Cytunwyd ar drafodaeth realistig ar rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sef darparu arweinyddiaeth a gwaith craffu o fewn y strwythurau cyfredol, yn hytrach na rheoli prosiectau ac integreiddio prosesau cyflenwi gwasanaethau.</td></tr>
</table>

| Nodwedd Allweddol | Enghreifftiau o arferion da |
|---|---|
| Dadansoddeg data  | **Defnyddio data i dargedu gwaith atal**<br>Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn atal tanau bwriadol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy gasglu, rhannu a defnyddio data a gwybodaeth i dargedu eu gwaith mewn meysydd a lleoliadau â blaenoriaeth. Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cydweithio â phartneriaid megis yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol y cyngor i rannu data er mwyn sicrhau bod ymdrechion yn cael eu targedu mewn modd effeithiol. Caiff data am achosion tanau eu cipio trwy'r System Cofnodi Gwybodaeth genedlaethol (IRS). Dadansoddir y data hyn er mwyn sicrhau bod gweithgarwch ymyrryd a negeseuon diogelwch yn y dyfodol yn adlewyrchu'r perygl o dân yn digwydd, er enghraifft canllawiau ysgrifenedig ar gelcio, a rhoi cyngor diogelwch wedi'i deilwra i Gymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Dadansoddir gwybodaeth o Borth Data Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru mewn cyfarfodydd gorsafoedd a rheoli misol er mwyn monitro nifer y digwyddiadau, anafiadau a marwolaethau, a chynllunio adnoddau yn unol â hynny.<br>**Defnyddio data i feithrin galluoedd a rennir a sicrhau arbedion effeithlonrwydd**<br>Mae Heddlu Dyfed-Powys yn gwella'r ffordd y mae'n defnyddio data i wella'r gwaith o reoli asedau. Defnyddir ystod eang o ddata am ddigwyddiadau a galw i nodi'r lleoliadau gorau posibl ar gyfer gorsafoedd heddlu. Gall swyddogion yr heddlu edrych ar ddata am droseddu a pherfformiad ar lefel sir, ward a rhawd. Mae setiau data hefyd yn cael eu cyfuno fwyfwy, er enghraifft wrth integreiddio gwybodaeth am gostau a pherfformiad i ddeall perfformiad ac ailgyfeirio adnoddau. O ganlyniad, mae buddsoddiad yn cael ei gyfeirio at yr asedau mwyaf addas, ac eir ar drywydd cyfleoedd i osod gorsafoedd heddlu ochr yn ochr â gorsafoedd tân, ac i greu canolfannau penodol ar gyfer arbenigedd yr heddlu.<br>**Gwella dadansoddeg data**<br>Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cynyddu ei gapasiti a'i alluoedd i ddeall a dadansoddi data mewn modd mwy effeithiol. Mae enghreifftiau'n cynnwys dadansoddi data i gau rhai gorsafoedd heddlu hen ffasiwn, i gyd-leoli gorsafoedd heddlu â gorsafoedd tân, ac i greu canolfannau penodol ar gyfer arbenigedd yr heddlu. Mae uwch-reolwyr yn edrych am y brigoedd, y tueddiadau a'r rhagolygon yn y galw i ddyrannu adnoddau. Mae setiau data yn cael eu cyfuno fwyfwy, er enghraifft wrth integreiddio gwybodaeth am gostau a pherfformiad i ddeall perfformiad ac ailgyfeirio adnoddau. Mae prosesau cloddio data yn gwella, ac yn achos nifer cynyddol o setiau data, gall swyddogion yr heddlu edrych ar ddata am droseddu a pherfformiad ar lefel sir, ward a rhawd. Mae data dadansoddol bellach yn cael eu cysoni â materion gweithredol, megis diogelu a cham-drin domestig. Mae defnyddio data i broffilio twyll a throseddu cyfundrefnol yn helpu i gyfeirio adnoddau arbenigol, er enghraifft cefnogaeth wyddonol a seiberdroseddu. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn ei ystyried ei hun yn sefydliad sy'n dyheu am ddata, ac mae'n cydnabod y meysydd lle mae angen i'w berfformiad wella. |

| Nodwedd Allweddol | Enghreifftiau o arferion da |
| --- | --- |
| Penderfyniadau dan Arweiniad Data  | **Gwneud penderfyniadau dan arweiniad data i baratoi adnoddau**<br>Mae Brigâd Dân Llundain yn gweithredu o fwy na 100 o orsafoedd tân ledled Llundain, a dyma'r gwasanaeth tân ac achub prysuraf yn y Deyrnas Unedig. Datblygodd Brigâd Dân Llundain Offeryn Ymateb Dynamig (DCT) gyda darparwr sector preifat i gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau yng nghanolfannau rheoli'r gwasanaethau brys. Mae'r Offeryn Ymateb Dynamig yn helpu i wella'r sylw a roddir i ddigwyddiadau a risgiau, ac yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd mor effeithlon â phosibl. Ymateb dynamig yw'r broses o adleoli adnoddau sydd ar gael i gynnal safonau priodol o ymateb i risg ledled ardal. Mae meddalwedd yr Offeryn Ymateb Dynamig yn darparu cymorth gweledol amser real i gefnogi'r swyddog rheoli argyfyngau yn y gwaith o symud cerbydau ymateb brys.<br>**Integreiddio data i wella dirnadaeth ac i gynllunio ymatebion strategol**<br>Mae Awdurdod Llundain Fwyaf yn hyrwyddo'r broses o ddatblygu a defnyddio data agored. Mae Awdurdod Llundain Fwyaf yn gweld bod y cyfleoedd mwyaf ar gyfer data agored i'w cael trwy fodelu tywydd eithafol, rhagfynegi'r galw am adnoddau naturiol, gwella'r gwaith o fonitro ansawdd yr aer, defnyddio lleoedd parcio, a gwella gwybodaeth am gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ac argaeledd tai ac asedau cymunedol. Roedd prosiectau data agored cynnar Awdurdod Llundain Fwyaf yn cynnwys mynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud â thai amlfeddiannaeth didrwydded, a lleihau nifer yr adeiladau hapchwarae mewn rhannau o Lundain a oedd â phobl hynod o agored i niwed. Mae Awdurdod Llundain Fwyaf bellach yn symud oddi wrth ei Bartneriaeth Data Bwrdeistrefol i hyb data sy'n seiliedig ar Academi Data San Francisco – gweler Academi Data, a hynny gyda'r nod o wella cysondeb ac ansawdd y broses o rannu data, rheoli data, delweddu, dadansoddi, a sgiliau data. |

| Nodwedd Allweddol | Enghreifftiau o arferion da |
|---|---|
| Data agored  | **Defnyddio data agored i feithrin gallu cymunedol a llywio lles economaidd**<br><br>Mae Data Mill North yn brosiect cydweithredol a sefydlwyd yn wreiddiol i fynd i'r afael â'r galw cynyddol a'r adnoddau lleihaol yn Leeds. Y nod yw galluogi pobl a sefydliadau i archwilio'r perthnasoedd cymhleth gwahanol sy'n bodoli rhwng gwasanaethau a busnesau'r ddinas, a hynny trwy gasglu data agored o sawl ffynhonnell mewn un man i gynnig gwell dealltwriaeth nag erioed o'r blaen o waith y ddinas. Tri phrif flaenoriaeth y prosiect yw sicrhau gwelliant amlwg mewn iechyd a lles, llywio rhagor o dwf o ran tai a safonau tai, a gwella'r isadeiledd teithio a thrafnidiaeth. Erbyn hyn, Data Mill North yw'r unig storfa yn y rhanbarth lle y gall pob gwasanaeth cyhoeddus rannu data, dirnadaeth a gwybodaeth am ystod eang o bynciau; mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau cyhoeddus lleol, perfformiad busnes ac economaidd manwl, addysg i oedolion, a nifer mawr o setiau data a ffynonellau gwybodaeth am dai.<br><br>Mae sylfaenwyr y prosiect yn gefnogwyr i Bencadlys y Sefydliad Data Agored (ODI), a sefydlwyd ym mis Tachwedd 2013. Mae ODI Leeds yn gweithio i ddod â gwerth cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd i Leeds, a hynny trwy wella hyddysgrwydd mewn data a meithrin sgiliau. Hyd yn hyn, mae'r prosiect wedi cynnal 668 o ddigwyddiadau, wedi codi £883 mil yn ychwanegol mewn cyllid, ac wedi helpu 228 o bobl i ddod o hyd i swyddi sy'n talu'n well. Mae'r holl ffynonellau data yn Swydd Efrog yn cael eu mapio ar hyn o bryd – gan gynnwys yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru